



Y VALE

tafarn
dyffryn
aeron

Menter Tafarn y Dyffryn Cynllun Busnes

www.tafarn.cymru
[@tafarnyvale](https://twitter.com/tafarnyvale)
cysylltu@tafarn.cymru

Y VALE



tafarn dyffryn aeron

Cynnwys

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Y prosiect
- 1.2 Ystrad Aeron, Felinfach a Dyffryn Aeron
- 1.3 Y sylfaen cwsmeriaid posibl
- 1.4 Cynnwys y gymuned
- 1.5 Adnewyddu ac ailddychmygu
- 1.6 Costau a chyllido'r prosiect
- 1.7 Marchnata
- 1.8 Y Gymdeithas ei hun
- 1.9 Amserlen

2. Rhagarweiniad

- 2.1 Cefndir
- 2.2 Yr angen am y prosiect
- 2.3 Y cyd-destun ehangach
- 2.4 Statws y ddogfen hon

3. Ynglŷn ag Ystrad Aeron, Felinfach a Dyffryn Aeron

- 3.1 Gwybodaeth ddemograffaid gyffredinol
- 3.2 Ein hanes a'n treftadaeth
- 3.3 Y sylfaen cwsmeriaid posibl
- 3.4 Y gystadleuaeth

4. Cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth

- 4.1 Ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid
- 4.2 Ennyn diddordeb ystod ehangach o bobl a gweithio mewn partneriaeth

5. Adnewyddu ac ailfodelu

- 5.1 Cyflwr cyfredol
- 5.2 Datblygu ac ailfodelu i ddiwallu anghenion
- 5.3 Cyfyngiadau Covid-19

5.4 Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

6. Costau ac amserlenni'r prosiect

6.1 Sut y byddwn yn ariannu prynu'r adeilad

6.2 Costau a chyllid cyffredinol y prosiect

6.3 Cynllun wrth gefn

6.4 Amserlen

7. Y cynnig busnes

7.1 Model busnes

7.2 Amseriad

7.3 Tybiaethau allweddol

7.4 Staffio

7.5 Adloniant

8. Marchnata a hyrwyddo

8.1 Cynllun marchnata

8.2 Marchnata'r Cynnig i brynu Cyfranddaliadau

9. Llywodraethu

9.1 Grŵp Llywio

9.2 Cynnwys yr aelodaeth, a grwpiau thematig

10. Rheoli risg

10.1 Dadansoddiad SWOT

10.2 Ymateb i'r risgiau

10.3 Deddf Diogelu Data 2018

11. Casgliadau

12. Rhestr o atodiadau



Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Beth sy'n bwysig i ni, a beth hoffen ni ei weld yn y pen draw.

EIN GWELEDIGAETH

Sicrhau bod y Vale yn aros yn galon i'r gymuned.

Cynnig lle i bobl o bob oed ac o bob man ddod i gymdeithasu.

Cynnig man cysurus a chroesawgar at ddefnydd mudiadau lleol.

Cynnal digwyddiadau a nosweithiau cymdeithasol Cymraeg a Chymreig.

Cefnogi busnesau lleol a chreu phartneriaethau gyda chwmnïau a chymdeithasau'r ardal.

Cynnig diodydd a phrydau ysgafn, gan ddefnyddio cynnyrch lleol.

Sicrhau cyfleoedd gwaith ac hyfforddiant i bobl leol, yn hen ac yn ifanc, a'u cefnogi i wireddu eu potensial.

EIN GWERTHOEDD

Ry'n ni am i'r Vale barhau i wneud lles i fywydau pobl Dyffryn Aeron:

- **Lles diwylliannol**
 - Bod yn lle naturiol-ddiwylliannol sy'n cryfhau ein hunaniaeth a'n treftadaeth
 - Bod yn lle i ddysgu byw
 - Bod yn lle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg

- **Lles cymdeithasol**
 - Lle i fynd i gael peint a chlonc
 - Canolfan gymunedol sy'n fan ymgynnull i bobl o bob oed, grwpiau a chymdeithasau
 - Man diogel, hygyrch a chroesawgar sy'n hybu cwmnïaeth

- **Lles economaidd**
 - Creu swyddi i bobl leol
 - Creu cyfleoedd gwaith i grefftwyr, gweithwyr a masnachwyr lleol
 - Cefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod lleol

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Y prosiect

Mae cymuned Dyffryn Aeron wedi creu Cymdeithas Budd Cymunedol er mwyn prynu a rhedeg tafarn y Vale yn Ystrad Aeron, Dyffryn Aeron a sicrhau ei bod yn parhau'n ganolbwynt pob math o weithgareddau a gwasanaethau y mae eu hangen ar y gymuned. Mae'r dafarn wedi bod ar werth ers amser, ac ers i'r les diweddaraf ddod i ben mae'r dafarn newydd gau, gan gadael bwlch enfawr ar ei hôl. Nid oes man cyfarfod arall tebyg ar gael i'r gymuned. Oherwydd hynny, rydym yn becco ei bod yn debygol y bydd gweithgarwch a rhyngweithio cymunedol yn lleihau, yn ogystal â gweld ein bod yn colli elfen bwysig o'r economi leol. Mewn cyfarfod cyhoeddus a thrwy gyfres o sesiynau galw heibo, roedd teimlad cryf iawn y byddai galluogi'r gymuned gyfan i brynu ac ailddatblygu'r Vale yn ysgogi gweithgarwch cymunedol, yn helpu i leihau unigrwydd, yn gwella lles a chynnig buddion economaidd i'r pentref a'r ardal ehangach.

Yn sgil dosbarthu holiadur, cafwyd ymateb pwerus a gwybodaeth werthfawr am flaenoriaethau pobl ar gyfer y dafarn a'u parodrwydd i gynnig cymorth ariannol a chefnogaeth arall. Yn dilyn trafodaethau pellach gyda pherchnogion presennol y dafarn, cafwyd cytundeb mewn egwyddor i brynu'r adeilad, yn amodol ar lwyddiant cynnig i brynu cyfranddaliadau er mwyn ariannu'r pryniant hwnnw. Cyhoeddi'r Cynllun Busnes hwn, ynghyd â'r Cynnig i Brynu Cyfranddaliadau cysylltiedig, yw'r cam nesaf yn ymgais y Gymdeithas i wireddu gweledigaeth sydd wedi creu cynnwrf trwy'r gymuned gyfan.

Nid ailagor tafarn segur yn unig yw'r weledigaeth, ond creu canolbwynt cymunedol go iawn, gan annog pobl o bob oed a diddordeb i ddod at ei gilydd drwy ddarparu lle croesawgar i fwyta, yfed a chymdeithasu, a lle pwrpasol i grwpiau cymdeithasol a mudiadau gyfarfod a ffynnu.

Bydd y fenter yn creu cyfleoedd i wirfoddoli, gan arwain at well iechyd a chyfranogiad democrataidd, a chryfhau gwytnwch wedi effeithiau'r pandemig. Byddwn yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo defnydd a sicrhau mynediad at y Gymraeg, sy'n nodwedd allweddol o fywyd y gymuned, a byddwn yn rhagweithiol wrth ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â heriau amgylcheddol.

1.2 Ystrad Aeron, Felinfach a Dyffryn Aeron

Mae llai na hanner milltir yn gwahanu pentrefi Felinfach ac Ystrad Aeron, ac maent wedi'u lleoli yn Nyffryn Aeron – rhyw 7 milltir o Aberaeron – ac yn ward Llanfihangel Ystrad yn etholaeth seneddol Ceredigion. Yn ward Llanfihangel Ystrad, lle ceir 1,430 o drigolion, cafodd 63% o'r boblogaeth ey geni yng Nghymru ac mae 64% yn siarad Cymraeg.

Mae'r pentrefi wedi'u gwasanaethu'n dda o ran cyfleusterau, gyda siopau a nifer o fusnesau lleol ynghyd â neuadd bentref, nifer o addoldai, ysgol gynradd a cae chwarae. Mae'r pentrefi ar lwybr bws da sy'n teithio ar hyd yr A482, y brif ffordd trwy'r Dyffryn. Ceir nifer o glybiau a chymdeithasau lleol ac mae traddodiad o ysbryd cymunedol cryf yn gysylltiedig â chymdeithasau amrywiol sy'n cylchdroi o gwmpas y ffatri laeth gynt, ynghyd â warws/siop y 'Co-op' amaethyddol lleol a Theatr Felinfach a'r ganolfan addysg gynt.

Gyda ystod arbennig o dda o gyfleusterau a'u lleoliad canolig mae Felinfach ac Ystrad Aeron yn ganolbwynt naturiol i nifer o bentrefi sy'n eu hamgylchynu o gwmpas y Dyffryn, gyda thrigolion Cilcennin, Ciliau Aeron, Cribyn, Dihewyd a Thalsarn (oll o fewn 3.5 milltir i'r Vale) yn cael eu denu yno ar gyfer cyfleusterau sydd, gwaetha'r modd, wedi hen ddiflannu o'r pentrefi unigol hynny.

1.3 Y sylfaen cwsmeriaid posibl

Prif nod y Gymdeithas yw bod y Vale yn diwallu anghenion trigolion Dyffryn Aeron a'r cyffiniau, ac yn datblygu enw da am ansawdd a lletygarwch a fydd yn ei gwneud yn gyrchfan i drigolion Ceredigion a thu hwnt. Mae'n lleoliad da i wasanaethu'r farchnad dwristiaeth sy'n troi'n bennaf o amgylch atyniadau trefi a phentrefi glan môr Ceredigion, sy'n cynnwys tref hynod boblogaidd Aberaeron, sydd ond 7 milltir i ffwrdd. Mae beicio a cherdded wedi cynyddu yn eu poblogrwydd yn yr ardal hefyd.

Mae lleoliad y Vale yng nghalon Dyffryn Aeron, hanner ffordd rhwng trefi Aberaeron a Llanbed, yn gwneud y dafarn yn ganolbwynt naturiol.

Prin yw'r gystadleuaeth uniongyrchol, gan nad oes tafarn bentref debyg o fewn 5 milltir i'r Vale. Mae hwn yn gyfle busnes gwirioneddol i sefydlu arlwy boblogaidd o safon uchel, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cyfoes defnyddwyr.

1.4 Cynnwys y gymuned

Yn ogystal ag ymrwymiad aelodau unigol o'r gymuned a'u teuluoedd, cafwyd llythyrau cefnogaeth gan ystod eang o gymdeithasau, busnesau ac unigolion amlwg yn lleol. Mae gwirfoddolwyr wedi cynnig eu gwasanaethau mewn meysydd sy'n amrywio o drefnu digwyddiadau i baentio, ac o arddio i weini.

Mae'r Gymdeithas yn bwriadu rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith a gweithio gydag asiantaethau lleol sy'n weithgar yn y meysydd hyn i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael buddion o'r fath.

1.5 Adnewyddu ac ailddychmygu

Mae angen gwneud rhywfaint o waith i gyflwyno'r adeilad presennol mewn cyflwr derbyniol. Mae' bar a'r ystafelloedd cyhoeddus presennol yn lleoedd llawn naws, a byddant yn cael eu cadw fel hyn heb eu newid yn ormodol, ond uchelgais y Gymdeithas yw ailddychmygu rhannau o'r safle, gan ymgynghori â'r gymuned a ddefnyddio sgiliau pensaer lleol i ddarparu'r canlynol:

- Y bar a'r ardaloedd bwyta a chymdeithasu y tu fewn i'r adeilad: rhagwelir rhywfaint o welliannau a moderneiddio, ond y bwriad yw gwneud hynny heb golli naws presennol y gofodau yma.
- Estyniad yn y cefn a newidiadau, er mwyn sicrhau mynediad hygrych a gwella cyfleusterau tai bach ac ati, ac o bosib er mwyn adleoli'r gegin bresennol i greu gwell cyfleusterau coginio.

- Adnewyddu gofod yr 'Hen Stabal', naill er mwyn creu ystafell amlbwrpas y gellir ei defnyddio gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat, neu o bosib ar gyfer creu llety gwyliau i'w osod i ymwelwyr.
- Ymgymryd â gwelliannau sy'n angenrheidiol i'r adeiladwaith bresennol, gan gynnwys gwelliannau i'r systemau gwresogi a thrydan ac ati.
- Gwelliannau i safonau inswleiddio presennol yr adeiladwaith, a mesurau eraill a fydd yn lleihau yr ôl-troed carbon ac yn sicrhau cynaliadwyedd y fenter i'r dyfodol.
- Creu gardd gwrw ddeniadol sy'n addas i'r teulu cyfan, gyda chegin allanol ac o bosib llwyfan fechan ar gyfer cerddoriaeth fyw yn yr haf.
- Gofod parcio wedi'i ailgynllunio a'i darmacio, gyda lle i'r anabl, o bosib pwynt gwefru ar gyfer ceir trydan a lle i adael beics.

1.6 Costau a chyllido'r prosiect

Bydd prynu'r adeilad a'r costau cysylltiedig, megis ffioedd cyfreithiol a threthi, yn dod i tua £310,000. Mae prynu'r adeilad yn cynnwys y gosodiadau, ond nid yw'n cynnwys unrhyw stoc. Rydym yn rhagweld y bydd rhai costau wrth ddechrau masnachu, a gan hynny rydym wedi gosod targed isafswm o £330,000 i'w godi'n benodol trwy'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau a'r ymdrechion cychwynnol i godi arian.

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd cyllido'r rhaglen ddatblygu yn costio £300,000 yn rhagor (ar ben cost prynu'r adeilad).

Y Cynllun Busnes hwn yw sail y Cynnig i brynu cyfranddaliadau y caiff aelodau'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach eu gwahodd i gymryd rhan ynddo a chefnogi Menter Tafarn y Dyffryn.

Ein targed o ran cyllid o bob ffynhonnell yw £600,000. Gwyddom y bydd angen codi cyfran sylweddol o'r swm hwn drwy gyllid grant, ac rydym yn hyderus bod y cynllun ar gyfer Menter Tafarn y Dyffryn yn bodloni meini prawf nifer o raglenni grant sy'n weithredol ar hyn o bryd.

Mae cynllun ariannol y busnes yn seiliedig ar ddenu incwm trwy werthu bwyd a diod, yn ogystal ag incwm enwol trwy rhentu'r fflat ar y llawr cyntaf (tua £400 y mis). Mae trosiant ac elw wedi'u modelu'n fanwl ac maent wedi'u llunio trwy dynnu cymariaethau o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys safonau'r diwydiant, trafodaethau â thafarndai gwledig tebyg yng Nghymru, a ffigurau masnachu hanesyddol y busnes. Bydd costau staffio'n cael eu rheoli'n dynn wrth i batrwm masnachu clir ymsefydlu.

Un o agweddau hirdymor y cynllun yw'r bwriad, yn y pen draw, i benodi Swyddog Datblygu a ariennir trwy gyllid grant i oruchwylio'r gwaith o fodloni amcanion ehangach y Gymdeithas o sicrhau cymaint â phosib o gyfranogiad, datblygu sgiliau a gwirfoddoli; fodd bynnag, nid yw'r bwriad hwn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes ar hyn o bryd, ac mae'n agwedd o'r prosiect a fyddai'n ddibynnol ar gyllid grant digonol.

Mae'r cynllun yn rhagweld y ffigurau canlynol ar gyfer y blynyddoedd cyntaf o fasnachu (net o ddibrisiant), sef colled o tua £12,000 yn y flwyddyn gyntaf, sy'n troi'n elw o tua £2000 yn yr ail flwyddyn ac elw o tua £5,000 yn y drydedd flwyddyn.

1.7 Marchnata

O'r cychwyn cyntaf, bydd y Gymdeithas yn gallu manteisio ar arbenigedd a profiad marchnata proffesiynol sylweddol ymhlith yr aelodau. Defnyddir ystod eang o gyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol, gan gynnwys rhai y telir amdanynt a rhai a geir am ddim, yn uniongyrchol ac yn rhyngweithiol, a chânt eu hanelu at gynulleidfaoedd targed penodol. Bydd hyn yn sicrhau y bydd negeseuon perthnasol a chredadwy mewn perthynas â'r hyn sydd gan y Vale i'w gynnig yn dod i sylw darpar-ddefnyddwyr yn barhaus, i greu a chadw ymwybyddiaeth ac adeiladu sylfaen cwsmeriaid a chynhyrchu busnes cylchol am flynyddoedd lawer i ddod. Caiff nwyddau wedi'u cynllunio'n benodol eu cynhyrchu i godi arian ac i ledaenu neges y Vale, ymhell ac yn agos.

1.8 Y Gymdeithas ei hun

Mae'r gymuned wedi mabwysiadu model Cymdeithas Budd Cymunedol fel yr hyn sy'n cydfynd orau â'r ysbryd a roddodd fod i'r fenter. Mabwysiadwyd Rheolau Enghreifftiol a sefydlwyd Grŵp Llywio cychwynnol ac ynddo dri aelod ar ddeg; wrth symud ymlaen rhagwelir sawl is-bwyllgor a fydd yn gyfrifol am wahanol feysydd.

Daw rhywun yn aelod trwy brynu gwerth o leiaf £200 mewn cyfranddaliadau, ac mewn Cyfarfodydd Cyffredinol bydd gan bob aelod un bleidlais.

Gwnaed cais i CThEM am Sicrwydd Ymlaen Llaw ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau i sicrhau y bydd buddsoddiadau yng nghyfranddaliadau'r Gymdeithas yn gymwys i gael Rhyddhad Treth Buddsoddiadau Cymdeithasol.

1.9 Amserlen

Bydd y Cynnig i brynu cyfranddaliadau yn agor ar 6 Tachwedd 2021 ac yn cau ar 12 Rhagfyr 2021. Y nod yw ailagor y dafarn yn ei ffurf bresennol cyn gynted ag sy'n bosib yn ngwanwyn 2022. Bydd ceisiadau grant yn cyd-redeg â'r pryniant a cheisiadau dylunio a chynllunio yn dilyn, cyn mabwysiadu cynlluniau terfynol, tendro a phenodi contractwyr. Rhagwelir bydd gwaith ar y safle yn cael ei wneud o hydref 2022 ymlaen am rhyw 6 mis, gan roi'r Cynllun Busnes llawn ar waith erbyn haf 2023.

2. Rhagarweiniad

2.1 Cefndir

Ar ôl blynyddoedd dan berchnogaeth Rowland a Daphne Evans, mae tafarn y Vale ar werth ers rhai blynyddoedd, a daeth y les i ben yn ddiweddar. Roedd y manylion gwerthu gyda'r asiant yn nodi pris o £325,000.

Gan bryderu am ddyfodol y dafarn, a'r ffaith y gallai gau, ganol 2021 daeth criw bach ynghyd i weld a fyddai modd ffurfio menter gydweithredol i brynu'r dafarn, a'i rhedeg fel adnodd i'r gymuned. Tyfodd y criw o ddau yn bedwar, a phedwar yn wyth, ac wyth yn dair ar ddeg, a fu wrthi'n archwilio'r posibiladau o ffurfio co-op, gan dynnu ysbrydoliaeth o fentrau eraill tebyg ar draws Cymru.

Gyda chymorth Canolfan Cydweithredol Cymru, cofrestrwyd Menter Tafarn y Dyffryn yn Gymdeithas Budd Cymunedol ym mis Awst 2021. Rhif cofrestru'r Gymdeithas gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yw 8698.

Holwyd i syrfëwr lleol am ei farn o ran gwerth yr eiddo ac, o ystyried y ffaith bod angen rhywfaint o waith adnewyddu, fe nododd fod ei werth, yn ei farn ef, rhwng £290,000 a £320,000.

Ar nos Fercher 25 Awst daeth cynrychiolwyr mudiadau Dyffryn Aeron ynghyd i drafod syniadau ac i ddychmygu pa wahaniaeth allai prynu tafarn y Vale fel co-op ei gwneud i'r gymuned leol. Yn dilyn hynny, rhannwyd holiadur a chafwyd 82 o ymatebion, a chynhaliwyd cyfres o sesiynau galw heibio ym mhentrefi'r Dyffryn, i rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau am y fenter.

Mae'r ymatebion i'r holl weithgarwch yma'n dangos bod yna ewyllys da a chefnogaeth sylweddol i'r fenter ymysg y gymuned lleol. O'r ymatebion i'r holiadur, nododd 82% eu bod o'r farn ei bod yn 'bwysig iawn' i'r Vale barhau yn dafarn sydd hefyd yn gweithredu fel canolbwynt i'r gymuned, a nododd 78% bod ganddynt ddiddordeb mewn prynu siârs.

Yn dilyn yr ymateb cadarnhaol, aeth y Gymdeithas ati i wneud cynnig cyntaf o £280,000 i brynu'r dafarn, ar yr amod ein bod yn bodloni'r nod ariannol a nodir yn y cynnig am gyfranddaliadau. Gwrthodwyd y cynnig gwreiddiol hwnnw, ac yn dilyn rhywfaint o drafod derbyniwyd ein cynnig o £297,500 mewn egwyddor. Mae teulu'r Evansiaid wedi bod yn gefnogol o'r cysyniad o berchnogaeth gymunedol ers i'r Gymdeithas gyflwyno'r syniad yn gynharach eleni, a hoffai'r Gymdeithas ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hamynedd trwy gydol y broses.

2.2 Yr angen am y prosiect

Er bod rhai cyfleusterau da yn Ystrad Aeron a Felinfach, does dim man cyfarfod i ddod â phobl ynghyd i ryngweithio mewn awyrgylch anffurfiol, cymdeithasol. O ganlyniad, rydym o'r farn bod mudiadau a chymdeithasau'n fwy tebygol o ddod i ben, ac y bydd hynny'n effeithio ar allu'r gymuned i drefnu gweithgareddau, dod â phobl at ei gilydd ac annog grwpiau cymunedol newydd i ffurfio.

Mae gan Ddyffryn Aeron nifer uwch na'r cyfartaledd (Ceredigion a Chymru) o bobl hŷn, ac mae nifer ohonynt yn byw ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn cefnogi'r farn bod angen rhagor o gyfleusterau i gefnogi aelodau'r gymuned, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed ac sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol. Byddai'r datblygiad yn sicrhau cyfleuster sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan ac a fyddai o fudd i unigolion sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig yn eu cartrefi, i bobl sydd wedi ymddeol sy'n chwilio am gyfleoedd i gadw'n egnïol, i drigolion newydd y mae arnynt eisiau cyfle i gwrdd â'u cymdogion ac i ofalwyr nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o gwrdd â phobl.

Mae tafarndai cymunedol wedi bod yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau a fu'n achubiaeth i bobl leol oedd mewn angen yn ystod y pandemig. Mae tafarndai cymunedol yn aml yn fwy na dim ond tafarn, maent, yn anad dim arall, yn effro i anghenion y gymuned. Y cysylltiad arbennig hwn â'r gymuned yw'r hyn sy'n gwneud tafarndai cymunedol yn asedau mor werthfawr ac unigryw – a'r hyn sydd hefyd yn rhoi mwy o wydnwch ariannol iddynt.

Mae adroddiad gan CAMRA (2016), 'Friends on Tap – The Role of Pubs at the Heart of the Community', yn cyfeirio at effeithiau cadarnhaol tafarndai ar iechyd a lles ac at y ffaith eu bod yn achubiaeth i nifer o aelodau'r gymuned:

“There has been a growing recognition over the past decade that the single most important factor determining health, wellbeing and survival is the size and quality of our personal social networks. The more people you know, and the more often you see them, the better you feel and the healthier you are...”

Pubs allow us to mix and meet a wider range of community members, and hence interact with a greater diversity of social classes and cultures, than would otherwise be the case if our social world is confined to work and home. Being more engaged with your local community and being involved more frequently in conversations with other individuals can have substantial benefits by reducing loneliness, which in turn is likely to have significant health and wellbeing benefits. Happy people and those who are embedded in large, well-integrated social networks are sick less often...

Directly and indirectly, pubs as venues for social communities are likely to yield significant savings on health care budgets. In this context, pubs serve an important hub function, by providing a venue at which people can meet. With the exception of places of worship, few venues in the contemporary world provide an open environment for meeting new people, especially for older age groups. For incomers to a neighbourhood and those whose turn of life

has left them socially isolated, becoming a 'regular' at a community pub can become a gateway for meeting new friends – and, through this, a lifeline.”

Mae'n bwysicach nag erioed buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol i gynorthwyo a chefnogi pobl yn y cyfnod o adfer yn dilyn y pandemig. Bydd canolfannau cymunedol yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi ein hadferiad hir ac araf; nid oes modd mesur pa mor werthfawr yw bod â lle y mae trigolion lleol yn teimlo eu bod yn 'berchen' arno ar y cyd ac sy'n sbardun ar gyfer ymgysylltu ehangach. Derbynir yn gyffredinol fod canolfannau cymunedol yn arwain at rwydweithiau o wirfoddolwyr brwd, gwell iechyd a lles, rhagor o ymgysylltiad democrataidd, a chymunedau sydd â'r gwydnwch i ymdopi â'r argyfwng presennol, a'r argyfyngau a allai ddilyn yn y dyfodol.

2.3 Y cyd-destun ehangach

Drwy fabwysiadu'r prosiect cymunedol hwn, mae Menter Tafarn y Dyffryn yn ymateb i ddeddfwriaeth genedlaethol a blaenoriaethau lleol ym maes cynaliadwyedd a lles.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae'r Ddeddf yn tynnu sylw at saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi fframwaith statudol i gyrff cyhoeddus sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud ar y cyd ac mewn modd cynhwysol, gan ystyried anghenion hirdymor y gymuned. Diben y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus nid yn unig yn diwallu anghenion presennol eu cymunedau ond hefyd nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol. Y nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion.

Gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw uchafu annibyniaeth pobl, cysylltu pobl â'u cymunedau a lleihau neu ohirio dibyniaeth pobl ar ymyriadau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae'n pwysleisio bod angen i awdurdodau lleol fod yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau ataliol, gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sicrhau gwerth am arian, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol a darparwyr eraill i ddiwallu anghenion cymunedau, a hybu iechyd a lles pobl er mwyn gohirio neu atal yr angen am ofal statudol.

Mae prosiect Menter Tafarn y Dyffryn yn cyd-fynd ag amcanion y Deddfau uchod. At hynny, drwy gydol y prosiect hwn bydd Menter Tafarn y Dyffryn yn gweithredu'n gyson ag ysbryd y ddeddfwriaeth genedlaethol ar gynaliadwyedd ac yn gweithio gyda Chynllun Llesiant Lleol Ceredigion i gyflawni ein nodau.

2.4 Statws y ddogfen hon

Mae'r cynllun busnes lefel uchel hwn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer Menter Tafarn y Dyffryn ac yn amlinellu sut y bwriadwn ddatblygu a rhedeg y fenter, gan sicrhau ei hyfywedd i'r dyfodol a gwneud yn siŵr ei bod yn cyflawni ein cenhadaeth gymdeithasol. Bydd y cynllun busnes hefyd yn cefnogi'r ceisiadau grant y byddwn yn eu gwneud (mae Atodiad 1 yn amlinellu rhai o'r cronfeydd grant y gallem fod yn gymwys ar eu cyfer), a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth ag ymgynghorydd a benodir gan (ac a ariennir gan) brosiect LEADER

Cynnal y Cardi, sydd wedi derbyn arian trwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a gyllidir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig trwy Lywodraeth Cymru.

Datblygwyd y ddogfen hon gan Grŵp Llywio ac is-grwpiau Menter Tafarn y Dyffryn.

Adolygwyd y ddogfen a darparwyd cyngor allanol gan y canlynol:

- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cynnal y Cardi (Cyngor Sir Ceredigion)

Cafodd y cynllun busnes ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Grŵp Llywio Menter Tafarn y Dyffryn ar 20 Hydref 2021. Rydym yn cydnabod y bydd y cynllun busnes hwn yn esblygu, a byddwn yn datblygu cynllun manylach unwaith y bydd cynlluniau pensaernïol terfynol ac amcangyfrifon cost wedi'u cwblhau ar gyfer yr adeilad.

3. Ynglŷn ag Ystrad Aeron, Felinfach a Dyffryn Aeron

3.1 Gwybodaeth ddemograffaid gyffredinol

3.1.1 Y boblogaeth

Mae Ystrad Aeron a Felinfach yn dau bentref ar bwys ei gilydd yn ward Llanfihangel Ystrad. Mae Dyffryn Aeron yn cynnwys wardiau Llanfihangel, Aberaeron, Henfynyw, Ciliau Aeron, Dyffryn Arth, Nantcwnlle a Llangeitho.

Mae gan y ward boblogaeth o tua 1430, sy'n byw mewn 621 o aelwydydd; cafodd 63% eu geni yng Nghymru ac mae 64% yn siarad Cymraeg.

Poblogaeth cymuned ehangach Dyffryn Aeron yw 7,623, sy'n byw mewn 3,412 o aelwydydd. Cafodd 58% o'r rheiny eu geni yng Nghymru, ac mae 57% yn siarad Cymraeg. Mae hynny'n cymharu â 19% ar draws Cymru.

Roedd ffigurau Cyfrifiad 2001 a 2011 ar gyfer proffilio oedran yn cofnodi gostyngiad o -5% yn nifer y bobl 25-29 oed (o'i gymharu â gostyngiad o -2% ar draws Cymru), a chynnydd o +7% yn y bobl dros 60 oed (o'i gymharu â +2% ar draws Cymru). Mae hynny'n ategu'r dystiolaeth anecdotaidd ehangach sy'n awgrymu bod pobl o oedran gweithio'n allfudo o'r ardal a bod pobl o oedran ymdeol ym mewnffudo yma. Roedd ffigurau o 2017 yn nodi bod 23% o'r bobl sydd o oedran gweithio wedi ymdeol, o'i gymharu â'r ganran ar draws Cymru, sef 16%.

Mae canran uchel o'r boblogaeth leol yn gweithio ym maes amaethyddiaeth (10%, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru o 2%), gyda 7% yn gweithio yn y diwydiant cynhyrchu (11% yng Nghymru) - nifer o'r rheiny'n gweithio yn y ffactrïoedd lleol megis Sensient a Volac International, sy'n gyflogwyr mawr yn lleol ac wedi'u lleoli ar hen safle hufenfa'r Bwrdd Marchnata Llaeth.

Mae gan yr ardal gyfran uchel iawn o weithwyr hunangyflogedig – y ganran yw 19%, o'i gymharu â chyfartaledd ar draws Cymru o 9% - ac mae nifer o'r rhain yn gweithio ym maes amaeth neu adeiladu. Mae'r ganran diweithdra (2%) yn eithaf isel (4% ydyw ar draws Cymru).

Yr enillion wythnosol gros cyfartalog yn 2020 oedd £451.50, a'r cyfartaledd ar draws Cymru oedd £537.80. Pris tŷ yng Nghymru ar gyfartaledd yw £178,907 (Ionawr 2021), ac yng Ngheredigion y pris cyfartalog yw £200,147 (sy'n gynydd o 8.5% yn ystod y flwyddyn ers Ionawr 2020). Mae hynny'n golygu mai Ceredigion yw'r sir gyda'r enillion wythnosol gros cyfartalog isaf ar draws Cymru, ond dyma'r 6ed awdurdod lleol drutaf i brynu tŷ ynddo.

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae ardal Llanfihangel Ystrad o fewn y 10% uchaf (51 allan o 1,909) o ardaloedd yng Nghymru sydd â'r mynediad gwaethaf at wasanaethau. Mae hynny er gwaethaf y faith bod Felinfach, yn lleol, yn cael ei ystyried yn un o'r pentrefi â'r mynediad gorau i wasanaethau dydd i ddydd.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 81% o'r boblogaeth 3 mlwydd oed neu'n hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n cymharu â 65% yng Ngheredigion ac 19% yng Nghymru.

Sylwer: Mae'r ystadegau wedi'u casglu o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Adroddiad Pweru'r Dyffryn gan Weithgor Dyffryn Aeron (2017).

3.1.2 Cyfleusterau ac asedau

Mae yma rhai cyfleusterau da yn Ystrad Aeron a Felinfach ar hyn o bryd:

- Ysgol Felinfach – gofod eithaf bach a ddefnyddir ar gyfer rhai digwyddiadau'n ymwneud â'r ysgol ac yn achlysurol iawn gan gymdeithasau eraill.
- Caeau Chwarae Felinfach – maes parcio bach, cae chwarae i'r tîm cyntaf, ac ystafelloedd newid.
- Eglwys Llanfinhagel Ystrad – mae'r Eglwys yn anymarferol fel man cyfarfod, er bod ganddi festri fach (heb gyfleusterau parcio).
- Capel Ty'n y Gwndwn – capel anghydfurfiol sydd â festri fach, wedi'i leoli hanner milltir o'r pentref. Mae'r capel yn anymarferol fel man cyfarfod.
- Neuadd Goffa Felinfach – neuadd bentref didrwydded wedi'i leoli rhwng Felinfach ac Ystrad Aeron, sy'n cynnig gofod mawr ar gyfer cynnal cyngherddau/digwyddiadau ac ystafell gyfarfod llai o faint. Caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd gan, ymysg eraill, y CFFI lleol a'r gangen leol o Ferched y Wawr.
- Theatr Felinfach – theatr ranbarthol fach sydd wedi'i lleoli oddeutu milltir y tu fas i bentref Ystrad Aeron. Fe'i hadeiladwyd yn 1972 (trwy droi hen weithdy amaethyddol yn theatr), ac mae'r theatr hon sy'n eiddo i Gyngor Sir Ceredigion wedi llwyfannu cwmnïau drama, cerddoriaeth a dawns o bob cwr o wledydd Prydain. Ond mae'n fwyaf adnabyddus am y cynyrchiadau a'r digwyddiadau cynhenid gan y gymuned a lwyfannir yno. Mae'n gwasanaethu sir Geredigion gyfan, yn enwedig y cymunedau gwledig, Cymreig. Mae'r Theatr yn lleoliad trwyddedig, ond mewn gwirionedd mae'r bar gwib yno ond yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol.

Mae gan y pentref swyddfa bost/siop a garej/gorsaf betrol a siop, yn ogystal â warws co-op y ffermwyr; fodd bynnag, ar hyn o bryd ni cheir caffis, bwytai na siopau tecawê, er bod hen dafarn yn y pentref sydd wedi bod ar agor o dro i dro fel siop tships ac yn achlysurol fel bwyty.

Mae safon y drafnidiaeth gyhoeddus yn dda ar y cyfan, gyda gwasanaethau rheolaidd yn rhedeg bron bob awr yn ystod y dydd, rhwng 7.30am a 7.30pm, sy'n cysylltu ag Aberaeron ac Aberystwyth ar hyd yr arfordir, a Llanbedr Pont Steffan a Chaerfyrddin i'r de. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw wasanaeth y tu hwnt i'r amseroedd hynny, ac mae llai o wasanaethau ar gael ar benwythnosau.

3.1.3 Mudiadau sydd yn yr ardal ar hyn o bryd

Gan fod gan y gymuned leol ofodau a chyfleusterau cyfarfod da, mae gennym nifer dda o glybiau a chymdeithasau sy'n dod â'r gymuned ynghyd. Mae'r grwpiau hynny sy'n bodoli eisoes yn cynnwys y gangen o Ferched y Wawr, Adran yr Urdd, y Clwb Pêl-droed, y Clwb Ffermwyr Ifanc a, nes yn ddiweddar, timau pŵl a dartiau y Vale. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu

y byddai cefnogaeth dda i grwpiau eraill, yn enwedig ym maes hanes, gwersi Cymraeg, barddoniaeth a llenyddiaeth, a hyfforddiant a chymorth TG sylfaenol i'r genhedlaeth hŷn.

Prin yw'r cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu a chymryd rhan weithredol yn yr ardal, gan fod pobl ifanc yn cael eu denu i Aberaeron neu Lanbedr Pont Steffan, neu hyd yn oed Aberystwyth (sydd 20 miltir i ffwrdd) i gymdeithasu, ond mae diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn golygu nad oes modd i bobl ifanc deithio i Aberystwyth ac yn ôl yn annibynnol, sy'n cynyddu'r risg o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol i'r grŵp oedran yma.

3.2 Ein hanes a'n treftadaeth

Mae'r enw 'Aeron' yn awgrymu ffrwythlondeb y dyffryn, fodd bynnag, er gwaethaf ei dawelwch hyfryd, enwir y dyffryn a'r afon ar ôl y Dduwies Ryfel Geltaidd sy'n awgrymu hen hanes caerau oesau haearn ac efydd niferus y fro.

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bobl yn adnabod y Dyffryn am ei draddodiad cyfoethog o ffermydd llaeth; roedd Felinfach yn gartref i hufenfa fawr a oedd yn gyflogwr pwysig yn lleol trwy ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae llawer o enwau ffermydd yn cynnwys y geiriau 'gwyn' neu 'laeth' (megis Llaethliw – sydd bellach yn winllan arobryn). Efallai'n wir bod yr enwau hyn wedi ysbrydoli Dylan Thomas (a oedd yn byw gerllaw yn Nhalsarn am gyfnod, ac yn adnabod yr ardal a'i thafarndai yn dda iawn) i alw ei ddrama enwocaf yn 'Under Milk Wood'? Pwy a wŷr, ond fe enwodd ei ferch yn Aeronwy hefyd.

Mae'r dyffryn yn enwog hefyd am ei blastai bach niferus; mae'r rhain yn cynnwys Tŷ Llanerchaeron sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gyda'i fferm a'i adeiladau allanol mae'n blas sy'n fodel o hunangynhaliaeth o ran cynnyrch, gan gynnwys stoc a physgod, grawnfwydydd a chynnyrch llaeth a chwrw. Mae hunangynhaliaeth ac annibyniaeth yn rhinweddau'r gymuned leol, gyda'r fro wedi'i lleoli o fewn Y Smotyn Du, ardal a fu'n enwog am ei Undodiaeth bybyr a'i anghydfurfiaeth grefyddol.

Ceir traddodiad cryf o gydweithio ac o feithrin prosiectau cymunedol yn y gymuned leol; ymestyn hynny yn ôl i'r 1920au a'r 1930au pan oedd crin dipyn o weithgaredd yn ymwneud â mentrau fel adeiladu Neuaddau Coffa pentrefi yn ogystal â ffurfio'r Cwmni Cydweithredol Ffermwyr Lleol (y 'co-op' –sydd a'i changen leol ynghanol y pentref hyd heddiw). Yn fwy diwedda, yn 2005, ffurfiwyd Cwmni Troed-y-rhiw fel cwmni cydweithredol lleol sy'n cynnig cefnogaeth i greu theatr a drama Gymraeg, gan ganolbwyntio ei ymdrechion ar gefnogi cymunedau lleol trwy gyd-weithio â nhw a'u cefnogi trwy'r broses greadigol.

Yn yr 1970au, ailddatblygodd yr awdurdod lleol adeilad gweithdy (a adeiladwyd yn wreiddiol i wasanaethu peiriannau amaethyddol ar gyfer ymdrech y rhyfel) i'r hyn a ddaeth yn Theatr Felinfach. Rhoddwyd tir cyfagos gan ffermwr lleol, Mr Simon Davies, Greengrove, ar gyfer datblygu Coleg Addysg Bellach (i ganolbwyntio ar amaethyddiaeth a sgiliau gwledig); cyn hynny yn y 1950au ef hefyd oedd wedi rhoi 18 erw o dir i'r Bwrdd Marchnata Llaeth i godi hufenfa o'r radd flaenaf yn y dyffryn.

Mae Theatr Felinfach, sy'n uchel ei barch ac yn agos iawn at galon y gymdogaeth, yn lleoliad sydd wedi llwyfannu perfformiadau gan grwpiau drama, cerddoriaeth a dawnys proffesiynol o bob rhan o Ewrop. Fodd bynnag, mae hi'n fwyaf adnabyddus am y cynyrchiadau cymunedol

di-rif y mae'n eu llwyfannu. Mae hynny'n cynnwys y pantos Cymraeg blynyddol sy'n unigryw ac yn adnabyddus ledled Cymru. Mae'n gwasanaethu sir Ceredigion i gyd ac yn enwedig y cymunedau gwledig, Cymraeg eu hiaith. Dyma'r un gymuned a diwylliant mae'r 'Vale' wedi'u croesawu ers cenedlaethau ac y byddwn, drwy'r prosiect hwn gobeithio, yn parhau i'w croesawu a'u hennyn am genedlaethau i ddod.

3.3 Y sylfaen cwsmeriaid posibl

Prif sylfaen cwsmeriaid y 'Vale' fydd trigolion lleol Ystrad Aeron, Felinfach a Dyffryn Aeron. Y nod yw creu cyfleuster cymunedol a fydd yn annog defnydd lleol, a bydd y gwasanaethau a gynigir yno'n adlewyrchu hynny.

Mae Theatr Felinfach, sydd wedi'i leoli hanner milltir i lawr y Dyffryn, yn gartref ysbrydol i lawer o gymdeithasau lleol a sirol; sy'n cynnwys Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Ceredigion sydd (cyn y pandemig) yn defnyddio campws Theatr ar gyfer cyfarfodydd misol a sawl cystadleuaeth flynyddol. Mae'r 'Vale' wedi arfer â chroesawu mynychwyr pwyllgor a chystadleuwyr o'r CFFI yn ogystal â'r chynulleidfa a pherfformwyr theatr sy'n awyddus i gael diod gymdeithasol ar ôl perfformiadau.

Yn yr un modd, y 'Vale' yw cartref cymdeithasol y clwb pêl-droed lleol, CPD Felinfach. Mae gan y 'Dynion Llaeth' ddau dîm hîn sy'n chwarae yng Nghynghrair De Ceredigion, tîm merched hîn llwyddiannus yn ogystal ag adran iau ffyniannus sy'n cynnwys timau dan 6, dan 8, dan 10, dan 12, dan 14 a dan 16. Mae'n draddodiad i'r 'Vale' darparu brechdanau i'r timau hîn wedi'r gemau.

Yn ogystal â hyn mae'r dafarn yn gartref i ddau dîm dartiau a ddau dîm pŵl, sy'n chwarae mewn cynghreiriau lleol ganol wythnos gydol y gaeaf. Mae yna hefyd farchnad ymwelwyr llawer ehangach y gallwn fanteisio arni yn ystod tymhorau'r gwanwyn, yr haf a'r hydref.

Mae Dyffryn Aeron mewn lleoliad da i wasanaethu marchnad dwristiaeth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar drefi a phentrefi arfordirol Ceredigion, yn eu plith Aberaeron, sydd ond 7 milltir i ffwrdd.

Mae beicio a cherdded yn cynyddu mewn poblogrwydd yn yr ardal ac mae lleoliad Felinfach ac Ystrad Aeron yn Nyffryn hardd Aeron, hanner ffordd rhwng trefi Aberaeron a Llanbed, yn sicrhau bod y pentrefi hyn yn ganolfan naturiol.

Mae'n werth nodi bod sawl safle gwerysyla a charafanau bach yn yr ardal (nid oes yr un ohonynt yn cynnig eu cyfleusterau 'clwb' eu hunain). Ymhlith y rhain mae'r safle teuluol bach 'Hafod Brynog' (30 llain) sydd o fewn taith gerdded 200m i'r 'Vale', sydd, dros y blynyddoedd, wedi bod yn lleoliad bwyta poblogaidd ac yn lle delfrydol i dorri syched gwerysllwyr a charafanwyr.

3.4 Y gystadleuaeth

Prin yw'r gystadleuaeth uniongyrchol, gan nad oes tafarn bentref debyg i fewn 5 milltir, er bod y Brynog Arms (sydd wedi cau ar hyn o bryd, ac a oedd ar agor ddiwethaf rhyw 3 blynedd yn ôl) yn dal yn wag. Mae hynny'n golygu bod gennym gyfle busnes gwirioneddol i sefydlu cynnig poblogaidd o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cwsmeriaid cyfoes.

Cyfleusterau lleol presennol:

I'r gogledd a'r gogledd-orllewin:

- Tyglyn Aeron (3 milltir) – gwesty gwledig ag ystafell ddigwyddiadau fawr sy'n dal hyd at 200 o bobl, ynghyd â bar llai o faint. Lleoliad ar gyfer cynnal priodasau a digwyddiadau mawr ydyw'n bennaf. Ar werth ar hyn o bryd.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron (5 milltir) – plas hanesyddol â chaffi poblogaidd.
- Aberaeron (7 milltir) – nifer o dafarndai a bwytai, sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac ymwelwyr.
- Rhos yr Hafod, Cross Inn (7 milltir) – dafarn draddodiadol, dim bwyd.
- Hungry Ram, Bethania (10 milltir) – bwyty.

I'r dwyrain:

- The Three Horseshoes, Llangeitho (7.5 milltir) – tafarn bentref draddodiadol, sy'n gwneud bwyd syml.

I'r de:

- Llanbedr Pont Steffan (6 milltir) – nifer o dafarndai a bwytai, sy'n gwasanaethu'r gymuned leol a chymuned fach o fyfyrwyr.
- Y Grannell, Llanwnnen (6.5 milltir) – tafarn bentref draddodiadol, gyda bwyd.

I'r gorllewin:

- Y Gilfach, Mydroilyn (5 milltir) – tafarn draddodiadol, heb fwyd.
- Cefn Hafod, Gorsgoch (7.5 milltir) – tafarn draddodiadol, gyda bwyd.

4. Cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth

4.1 Ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid

4.1.1 Cyfarfodydd a sesiynau ymgysylltu

Trefnwyd cyfarfod cyhoeddus cychwynnol ar 25 Awst 2021 i geisio barn pobl am y syniad o brynu a rhedeg y 'Vale' fel menter gymunedol. Oherwydd pryderon ynghylch y pandemig, yn hytrach na galw cyfarfod cyhoeddus, lle y gallai fod yn amhosibl rheoli nifer y bobl fyddai yno, penderfynwyd gwahodd clybiau a chymdeithasau'r ardal i anfon cynrychiolydd. Gwahoddwyd 35 o gymdeithasau o ardal Dyffryn Aeron a chafwyd presenoldeb hynod o dda, gyda chynrychiolwyr 30 o'r mudiadau hynny'n ymuno. Buom yn trafod beth oedd y 'Vale' yn ei olygu i bawb a oedd yn bresennol a'u mudiadau, ac yn amlinellu sut y gallai cynllun o'r fath weithio. Y consensws cyffredinol oedd bod pobl yn cefnogi'r cynnig hwn a'u bod yn awyddus i fwrw ymlaen â'r syniad.

Eto, er mwyn osgoi dod â gormod o bobl ynghyd mewn un man, ond er mwyn sicrhau bod y gymuned gyfan yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cynhaliwyd diwrnod agored 'galw heibio' ar 25 Medi 202, lle buom ar wibdaith o gwmpas gwahanol leoliadau ym mhob un o'r prif bentrefi yn nalgylch y 'Vale'. Diben y diwrnod oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl ynghylch y broses o prynu'r adeilad, amlinellu'r broses oedd yn mynd rhagddi a'r amserlen, a chasglu syniadau a gwrando ar argymhellion. Eto, cafwyd cefnogaeth aruthrol i'r cynigion mewn egwyddor, gyda phob un o'r oddeutu 40 a ymunodd â'r wibdaith yn dangos diddordeb mewn prynu siârs, a nifer yn cynnig cefnogi'r fenter ar lefel wirfoddol/ymarferol.

4.1.2 Holiadur i'r gymuned

Ar 25 Awst, lanswyd holiadur gennym i gasglu syniadau ac awgrymiadau pobl. Ymatebodd cyfanswm o 82. Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys:

- Roedd cefnogaeth gref iawn i'r syniad, gydag 82% o ymatebwyr yn ystyried bod prynu'r Vale fel cymuned yn 'bwysig iawn'.
- Dywedodd 44% y byddent yn defnyddio'r cyfleusterau 'o leiaf unwaith yr wythnos', a dywedodd 32% pellach y byddent yn eu defnyddio 'o leiaf unwaith y mis'.
- Roedd y gwasanaethau a'r cyfleusterau ychwanegol mwyaf poblogaidd yn cynnwys: gwerthu cynnyrch lleol, cerddoriaeth fyw, gardd gwrw addas i deuluoedd, paneidiau yn ystod y dydd.
- Roedd y syniadau ychwanegol mwyaf poblogaidd a gynigwyd yn cynnwys: lle i gynnal perfformiadau awyr agored, cyfleusterau i'r gymuned a chyfleusterau bwyta pop-yp.
- Nododd dros 78% o'r ymatebwyr y byddai ganddynt ddiddordeb mewn prynu siârs.

Gellir holi am gael gweld copi o'r adroddiad llawn.

4.1.3 Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid

Cynhaliwyd trafodaethau gyda rhai partneriaid a rhanddeiliaid, sy'n cefnogi'r datblygiad hwn yn llawn. Yn eu plith mae:

- Sefydliadau statudol
- Sefydliadau'r trydydd sector
- Ysgolion cynradd leol
- Cymdeithasau a mudiadau lleol
- Busnesau lleol
- Aelodau etholedig

Ceir enghreifftiau o rai llythyrau cefnogaeth yn Atodiad 3.

4.2 Ennyn diddordeb ystod ehangach o bobl a gweithio mewn partneriaeth

Mae cefnogaeth gymunedol sylweddol i'r prosiect hwn ac mae rhanddeiliaid, cymdeithasau a busnesau o'r ardal ehangach hefyd yn gefnogol. (Gweler enghreifftiau o lythyrau cefnogi yn Atodiad 3.)

Bydd amrywiaeth o gyfleoedd i wirfoddoli ac i fod yn rhan o'r prosiect hwn ar bob cam o'r daith. Mae cyflawni ein cenhadaeth gymdeithasol, a bod yn atebol i'n cyfranddalwyr a'r gymuned ehangach, yn ffactor pwysig sy'n greiddiol i lwyddiant y prosiect hwn.

Trwy ein gwaith cychwynnol yn ymgysylltu â'r gymuned, nododd nifer o bobl y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwirfoddoli - i ddatblygu'r adeilad ac i helpu i redeg y fenter. Rydym yn bwriadu darparu cyfleoedd gwirfoddoli ar bob cam o'r daith. Dyma enghreifftiau o rai o'r cyfleoedd hynny i wirfoddoli:

- Cam datblygu'r prosiect - grŵp llywio ac is-grwpiau, clirio'r safle, paentio, addurno, garddio a thirlunio, dylunio tu fewn, cynllunio bwydlenni.
- Rhedeg y busnes - helpu yn y gegin a thu ôl l'r bar, gweini, glanhau, gwaith cynnal a chadw cyffredinol.
- Hyrwyddo gweithgarwch cymdeithasol - trefnu digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol o bob math i gynyddu cyfranogiad, ynghyd â chyfleoedd i gymdeithasu a chael mwy o bobl i gymryd rhan.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y prosiect yn creu llawer o gyfleoedd gwaith ac rydym yn awyddus i sicrhau'r manteision cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl trwy'r prosiect hwn.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod y prosiect hwn yn cynnig y buddion mwyaf posibl i bawb, ac i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod ehangach o bobl. Mae eisoes gennym gefnogaeth nifer o fudiadau a sefydliadau, a byddwn yn parhau i drafod gydag amrywiol bartneriaid eraill:

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

Byddwn yn gweithio gyda'r gymdeithas i sicrhau hyfforddiant priodol i'n gwirfoddolwyr ac i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli i'r gymuned yn ehangach.

Hyfforddiant Ceredigion (Cyngor Ceredigion) a Coleg Ceredigion

Byddwn yn gweithio gyda Hyfforddiant Ceredigion a Coleg Ceredigion a fydd yn cysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Cymru'n Gweithio, darparwyr hyfforddiant ac addysg ar ein rhan i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, hyfforddiant a phrofiad gwaith.

Theatr Felinfach

Rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â Theatr Felinfach ynghylch y posibilrwydd o ffurfio partneriaeth lle gallai'r Vale ddarparu lleoliadu amgen/ychwanegol i gynnal digwyddiadau cerddorol a chomedi (o bosib yn rhan o wyl ar y cyd) a byddem hefyd yn awyddus i weithio ar gyfleoedd posibl yn ymwneud ag arlwygo a gwerthu trwy'r bar.

Gwasanaeth Llyfrgell Ceredigion

Dangoswyd diddordeb mewn defnyddio'r Vale fel man casglu llyfrgell, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd cynulleidfa ehangach a'i fod yn fwy hygyrch.

Banc Bwyd Aberaeron

Byddwn yn gweithio gyda'r banc bwyd i leihau gwastraff bwyd ac i helpu pobl mewn angen.

Ysgolion Felinfach, Ciliau Parc a Dihewyd

Byddwn yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd lleol a'r cymdeithasau rhieni ac athrawon i sicrhau bod plant lleol yn cymryd rhan yn natblygiad y 'Vale'. Gallai hyn gynnwys rhoi cyflwyniad i blant yr ysgol am y datblygiad, eu cynnwys yn y cam dylunio a chael eu mewnbwn wrth ddatblygu bwydlen i blant, lle addas ar eu cyfer a gweithgareddau arfaethedig i blant a theuluoedd.

Cered (Menter Iaith Ceredigion)

Byddwn yn gweithio gyda Cered ar bob cyfle i gynorthwyo ein hamcanion cyffredin:

- codi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg yn gyffredinol
- cynyddu hyder a rhuglder siaradwyr Cymraeg
- hywluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a hybu'r defnydd o'r iaith
- hyrwyddo statws y Gymraeg
- darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad

5. Adnewyddu ac ailfodelu

5.1 Cyflwr cyfredol

Cwblhawyd arolwg o gyflwr yr adeilad ym mis Medi 2021 a nodwyd er bod yr adeilad mewn cyflwr teg, bod angen gwneud gwaith helaeth i ddiogelu ac adnewyddu'r adeilad presennol.

5.2 Datblygu ac ailfodelu i ddiwallu anghenion

Yn seiliedig ar yr hyn y mae'r gymuned a'r rhanddeiliaid eisoes wedi'i ddweud wrthym, ein dymuniad yw datblygu'r cyfleusterau canlynol yn y 'Vale':

- Parhau fel tafarn draddodiadol Gymreig a Chymraeg.
- Darparu bwyd a diod o Gymru, sydd o ansawdd da, yn ystod y dydd a gyda'r nos – gan ddefnyddio cynnyrch lleol.
- Y potensial o gael ystafell amlbwrpas hygyrch fel gofod dros ben i'r bwyty ac l'w ddefnyddio i gynnal digwyddiadau bach, dathliadau, gweithgarwch cymunedol, cyfarfodydd a chyrsgiau. Dylid nodi nad bwriad y gofod hwn fyddai 'cystadlu' â neuaddau lleol, ond yn hytrach cynnig cyfleusterau nad oes modd eu darparu yn y gofodau hynny sydd eisoes ar gael i'r gymuned.
- Amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ar gyfer pob oedran.
- Lle storio a swyddfa addas i staff.
- Mynediad hygyrch a chyfleusterau toiled ychwanegol.
- Ardaloedd lle bydd croeso i deuluoedd.
- Gardd groesawgar a defnyddiol, sy'n cynnwys y potensial o greu man perfformio yn yr awyr agored.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn cydnabod nad yw'r adeilad presennol yn addas at ei ddiben ac y bydd angen gwaith uwchraddio helaeth, gan wneud gwaith datblygu ac ailfodelu o bosibl. Rydym yn bwriadu ystyried yr opsiynau sydd gennym o ran yr adeilad drwy gomisiynu pensaer lleol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn mabwysiadu arferion caffael moesegol mewn perthynas ag unrhyw waith y byddwn yn ei gomisiynu.

5.3 Cyfyngiadau Covid-19

Wrth ddatblygu ac ailfodelu y 'Vale' byddwn yn ystyried goblygiadau Covid-19 a'r effaith bosibl ar sut bydd y busnes yn rhedeg. Byddwn yn sicrhau bod y gofod y tu fas yn cael ei ddatblygu i'w wneud mor ddefnyddiol â phosibl. Gallai gynnwys cyfleusterau megis:

- cegin awyr agored - popty pítsa, barbeciw
- ardal ar gyfer bar allanol teithiol
- man eistedd deniadol a gwasgaredig, ac ystyriaeth i ffyrdd o fochel rhag y tywydd (e.e. podiau unigol, canopi, gazebo, neu barasolau)

Byddwn hefyd yn sicrhau, os yn bosib, bod lleoliad y gofodau bwyta yn rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau posibl yn y dyfodol. Rydym yn rhagweld y bydd y dafarn yn ailagor yn 2022 a byddwn yn monitro effaith bosibl Covid-19 wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau a byddwn yn ymateb yn unol â hynny.

5.4 Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

Mae Menter Tafarn y Dyffryn yn credu bod gwarchod yr amgylchedd a chymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy. Caiff yr egwyddorion hyn hymgorffori yn ein gweithgareddau ac maent yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth o ddatblygu y 'Vale' fel canolfan gymunedol, busnes cynaliadwy a chyfleuster amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan, tra bod diogelu dyfodol y dafarn ei hun yn ganolog i'r cynnig.

Byddwn yn cadw at yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- meddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- integreiddio ein gwasanaethau, ein sgiliau, ein cynllunio a'n cyfrifoldebau
- cynnwys ein cwsmeriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned yn ein penderfyniadau
- gweithio gyda sefydliadau a mudiadau eraill i sicrhau lles pawb

Fel rhan o'n hymrwymiad amgylcheddol, byddwn yn anelu at sicrhau bod y gwaith o adnewyddu y 'Vale' yn waith carbon sero net. Bydd deunyddiau wedi'u hadfer a'u huwchgylchu yn cael eu blaenoriaethu i gyflawni'r nod hwn, a bydd y carbon dros ben yn cael ei wrthbwyso drwy blannu coed yn lleol.

Byddwn yn gofyn am gyngor arbenigol i sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion amgylcheddol gorau a byddwn fel rhan o'r datblygiad yn ymgorffori'r argymhellion yn ein datblygiad. Byddwn yn datblygu polisi amgylcheddol a chod ecolegol a fydd yn cael eu dilyn a'u monitro gan y rheolwyr a chan y Grŵp Llywio. Rydym yn rhagweld y bydd y polisiau yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL ARFAETHEDIG

Elfen o'r adeilad		Argymhelliad
1	Goleuadau	<ul style="list-style-type: none">• Newid pob golau'n olau LED
2	Rheoli goleuadau	<ul style="list-style-type: none">• Gosod dulliau rheoli goleuadau awtomatig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml
3	System wresogi	<ul style="list-style-type: none">• Ystyried system wresogi pwmp gwres

4	Rheoli'r system wresogi	<ul style="list-style-type: none"> • Falfiau thermostatig (TRVs) ar bob gwresogydd • Sônio yn yr adeilad • Thermostat digidol/clyfar • Dulliau rheoli sy'n ymateb i'r tywydd
5	Pibellau gwresogi	<ul style="list-style-type: none"> • Inswleiddio pob pibell - hyd yn oed mewn mannau sydd wedi'u gwresogi
6	Deunydd: waliau	<ul style="list-style-type: none"> • Inswleiddio y tu hwnt i ofynion y rheoliadau presennol, er mwyn sicrhau'r adeilad i'r dyfodol – inswleiddio pob wal yn allanol neu'n fewnol
7	Deunydd: y to	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno deunydd inswleiddio ychwanegol yn y llofft, lle y bo'n ymarferol
8	Deunydd: ffenestri a drysau	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod ffenestri dwbl neu eilaidd • Sicrhau nad oes drafft yn dod trwy'r ffenestri, y drysau agored a'r drysau sy'n arwain at fannau sydd heb eu gwresogi
9	Y selar a'r system oeri	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod system oeri amgylchol • Sicrhau bod drysau a waliau'r selar wedi'u hinswleiddio'n ddigonol ac nad ydyn yn gadael drafft allan.
10	Arlwyo ac oergelloedd	<ul style="list-style-type: none"> • Hobiau anwythiad ac offer arlwyo o ansawdd A. • Sicrhau bod yr oergelloedd o ansawdd A, a defnyddio amseryddion, i sicrhau bod cyn lleied o ynni â phosibl yn cael ei ddefnyddio
11	Offer trydanol	<ul style="list-style-type: none"> • HRV i sicrhau bod lleithder yn cael ei reoli • Gosod gosodiadau sy'n arbed ynni a phaneli un clic
12	Offer y bar	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod amseryddion 7-diwrnod neu reoliadau 'clyfar' ar declynnau oeri diodydd • Gosod amseryddion 7-diwrnod ar oergelloedd diodydd
13	Cynhyrchu ynni'n adnewyddadwy	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid archwilio'r posibilrwydd o osod paneli solar PV trwy gynnal astudiaeth o ddichonoldeb

14	Defnyddio dŵr yn effeithlon	<ul style="list-style-type: none"> • Toiledau fflysio deuol gyda seston bach • Rheolyddion synhwyro symudiad yn y troethfeydd, rhai di-ddŵr os oes modd • Tapiau awyru (anesgytwol) • Casglu dŵr glaw i ddyfrhau'r ardd gwrw
15	Pwyntiau gwefru	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod pwynt gwefru cerbydau trydan
16	Biniau ailgylchu	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyfleusterau ailgylchu digidol
17	Storio a gwefru beiciau	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyfleusterau diogel i storio beics, a chyfleusterau gwefru beiciau trydan

6. Costau ac amserlenni'r prosiect

6.1 Sut y byddwn yn ariannu prynu'r adeilad

Cytunwyd ar bris gwerthu o £297.5k ac rydym yn rhagweld y bydd cyfanswm y gwerthiant a'r costau cysylltiedig (ffioedd cyfreithiol a threthi) yn tua £313k.

Bydd y pryniant yn cael ei ariannu yn y lle cyntaf trwy werthu cyfranddaliadau cymunedol o ganlyniad i'r Cynnig i brynu Cyfranddaliadau. Os oes diffyg sylweddol, mae'n bosib y bydd angen ailystyried y prosiect, ond os yw'r diffyg yn fach gellir gwneud penderfyniad i barhau pe bai modd codi gweddill yr arian i dalu am yr adeilad trwy grantiau a gweithgareddau codi arian eraill, gan gynnwys benthyciadau tymor hir megis morgais gan y WCVA/Cyllido Cymru.

6.2 Costau a chyllid cyffredinol y prosiect

Byddwn yn penodi pensaer lleol sydd â phrofiad o weithio ar brosiectau lletygarwch ac arlwyo i ddatblygu cynigion dylunio ar gyfer y gwaith adnewyddu ac uwchraddio. Yn dibynnu ar y cynlluniau terfynol y cytunir arnynt, rydym yn rhagweld y bydd y costau hyn o gwmpas £300k. Caiff y costau hyn eu hariannu drwy weithgarwch codi arian a chyllid grant.

Mae tystiolaeth y bydd y prosiect yn gymwys ar sawl cyfrif am arian grant: sef yn bennaf, y grantiau sy'n ymwneud ag angen cymdeithasol a lles, ymgysylltu â'r gymuned, a chreu cyfleoedd gwaith. Mae'n ymddangos bod nifer o gronfeydd posibl sydd wedi rhoi grantiau cyn hyn i brosiectau tebyg, a byddwn yn manteisio ar gymorth ymgynghorydd a gyflogir gan Cynnal y Cardi (Cyngor Sir Ceredigion) i'n cynorthwyo i chwilio am gymorth grant ac ymgeisio amdano.

Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r cyllid grant posibl sydd ar gael ar gyfer y prosiect hwn. Bydd gwerthu Cyfranddaliadau Cymunedol yn elfen allweddol o ddull ariannu'r prosiect ac yn arwydd pwysig o'r gefnogaeth gymunedol a'r galw am y cyfleusterau y bydd yr ailddatblygiad yn eu darparu. Y targed a osodwyd ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau cychwynnol yw £330,000, a fyddai felly'n swm digonol i brynu'r eiddo a thalu'r ffioedd cysylltiedig, a rhoi swm i dalu costau sefydlu a rhywfaint o gyfalaf gweithio.

Ar hyn o bryd, teimlir mai'r peth doethaf yw dangos yr amrywiol ffynonellau cyllid posibl ar ffurf y tabl isod, sy'n ymddangos fel pe bai'n darparu gormodedd o gyllid. Wrth i wahanol elfennau gael eu cadarnhau (e.e. y swm a godir drwy werthu cyfranddaliadau cymunedol, argaeledd (neu fel arall) grantiau ac ati, ac wrth gwrs, costau'r prosiect), bydd y cydbwysedd rhwng yr elfennau hyn yn dod yn gliriach. Gallai'r posibilrwydd o ddefnyddio benthyciadau hirdymor gan gefnogwyr neu o'r farchnad fasnachol fod yn ffordd o gydbwysu'r hafaliad rhwng costau ac incwm os oes angen. Fodd bynnag, mewn egwyddor, ystyried benthyciadau fyddai'r opsiwn lleiaf ffafriol i ni wrth fwrw ymlaen â'r prosiect, a byddai angen i'r telerau ar gyfer benthyciadau o'r fath ac ystyriaethau ail-dalu gael eu hystyried yn ofalus cyn hynny, unwaith y bydd costau'r gwaith datblygu'n dod yn gliriach.

MODEL CYLLIDO A GWARIANT AMLINELLOL

CYLLID	£
--------	---

Yr arian a godir o'r cynnig cyhoeddus i brynu cyfranddaliadau	350,000
Rhoddion	5,000
Digwyddiadau codi arian / gwerthu deunyddiau	5,000
Cronfa'r Gymunedol y Loteri Genedlaethol 100-500k	100,000
Llywodraeth Cymru – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol 25k to 250k	150,000
Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU 250k punt am bunt	250,000
Amryw o grantiau bach/lleol	20,000
Cyllido model amlinellol	880,000
CYFANSWM YR INCWM	880,000
GWARIANT	£
Prynu'r eiddo (gan gynnwys ffioedd ac ati)	310,000
Costau dechrau	20,000
Ffioedd tîm dylunio (gan gynnwys arolygon ecoleg/ystumod ac ati)	15,000
Costau atgyweirio ac adnewyddu	130,000
Costau datblygiadau newydd	60,000
Celfi ac offer	20,000
Wrth gefn	25,000
Cyfalaf gweithredol	20,000
CYFANSWM Y GWARIANT	600,000
WRTH GEFN (gwarged)	280,000

6.3 Cynllun wrth gefn

Mae'r Cynllun Busnes fel y'i disgrifir yma yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi digon o arian o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus.

Os nad ydynt, caiff y got ei thorri yn ôl y brethyn, a bydd rhannau unigol o'r datblygiad yn cael eu rhoi o'r neilltu neu'n cael eu gohirio hyd nes y bydd cyllid ar gael. Ar adeg briodol, a chyn mynd i wariant mawr, (heibio a thu hwnt i brynu'r safle ei hun), bydd cynllun terfynol, yn seiliedig ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau, yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ei gymeradwyo.

6.4 Amserlen

Rydym yn rhagweld y bydd amserlen y prosiect hwn fel a ganlyn:

Cam	Dyddiad
-----	---------

1	Sefydlu	Meh-21
2	Crey Grŵp Llywio	Gorff-21
3	Ymgynghori â'r cyhoedd a lansio'r holiadur i'r gymuned	Awst-21
4	Arolwg prisiad a chyflwr	Awst -21
5	Sefydlu a chofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol	Awst -21
6	Datblygu'r Cynllun busnes	Medi-21
7	Datblygu'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau	Medi-21
8	Digwyddiad arall i ymgysylltu â'r cyhoedd	Medi-21
9	Agor cyfrif banc	Medi-21
10	Cyflwyno cynnig	Hyd-21
11	Lansio'r Cynllun busnes a'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau	Tach-21
12	Dechrau codi arian	Tach-21
13	Archwilio i gyfleoedd am arian grant, a datblygu ceisiadau	Tach-21
14	Cau'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau	Rhag-21
15	Dechrau'r broses trawsgludo a chwblhau'r pryniant	Ion-22
16	Comisiynu pensaer a syrfëwr meintiau i ddatblygu opsiynau a chostau	Chwe-22
17	Datblygu disgrifiadau swydd, a chwilio am staff a'u penodi	Chwe-22
18	Ailagor (ogan weithredu'n unol â'r sefyllfa bresennol)	Maw-22
19	Ymgynghoriad cyhoeddus i drafod y cynlluniau dylunio	Ebrill-22
20	Datblygu cynigion dylunio terfynol	Ebrill-22
21	Diwygio'r cynllun busnes a'r trefniadau gweithredol i adlewyrchu'r cynllun terfynol	Mai-22
22	Cyflwyno ceisiadau am grant ar gyfer cronfeydd cyfalaf a reffeniw	Mai-22
23	Cyflwyno ceisiadau am unrhyw cydsyniadau statudol, fel sy'n ofynnol (rheoliadau cynllunio ac adeiladu)	Meh-22
24	Gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith cyfalaf	Gorff-22
25	Paratoi'r busnes ar gyfer 'Gwasanaeth interim' (cyfyngedig oherwydd y gwaith cyfalaf)	Medi-22
26	Dechrau'r gwaith cyfalaf ar y safle	Hyd-22
27	Cwblhau'r gwaith cyfalaf	Ebr-23
28	Ail-lansio'r Vale ar ôl cwblhau'r gwaith	Mai-23

7. Y cynnig busnes

7.1 Model busnes

Ein prif nod yw cyfoethogi bywydau drwy ddod â phobl at ei gilydd. Mae hyn yn golygu uchafu'r cyfleoedd a'r rhesymau dros ddod i'r 'Vale'. Gwneud hynny'n llwyddiannus yw'r hyn a fydd yn galluogi'r fenter i lwyddo fel busnes.

Ein cynllun yw codi digon o arian i ganiatáu ailddatblygu'r safle presennol i gynnwys y canlynol:

- Y bar a'r ardaloedd bwyta a chymdeithasu y tu fewn i'r adeilad: rhagwelir rhywfaint o welliannau a moderneiddio, ond y bwriad yw gwneud hynny heb golli naws presennol y gofodau yma.
- Estyniad yn y cefn a newidiadau, er mwyn sicrhau mynediad hygyrch a gwella cyfleusterau tai bach ac ati, ac o bosib er mwyn adleoli'r gegin bresennol i greu gwell cyfleusterau coginio.
- Adnewyddu gofod yr 'Hen Stabal', naill er mwyn creu ystafell amlbwrpas y gellir ei defnyddio gan gymdeithasau a digwyddiadau preifat, neu o bosib ar gyfer creu llety gwyliau i'w osod i ymwelwyr.
- Ymgymryd â gwelliannau sy'n angenrheidiol i'r adeiladwaith bresennol, gan gynnwys gwelliannau i'r systemau gwresogi a thrydan ac ati.
- Gwelliannau i safonau inswleiddio presennol yr adeiladwaith, a mesurau eraill a fydd yn lleihau yr ôl-troed carbon ac yn sicrhau cynaliadwyedd y fenter i'r dyfodol.
- Creu gardd gwrw ddeniadol sy'n addas i'r teulu cyfan, gyda chegin allanol ac o bosib llwyfan fechan ar gyfer cerddoriaeth fyw yn yr haf.
- Gofod parcio wedi'i ailgynllunio a'i darmacio, gyda lle i'r anabl, o bosib pwynt gwefru ar gyfer ceir trydan a lle i adael beics.

Mae ein ffynonellau ariannu posibl yn cynnwys cyfuniad o werthu cyfranddaliadau, denu grantiau (gweler Atodiad 1), a gweithgareddau eraill i godi arian.

Mae'r Cynllun Busnes fel y'i disgrifir yma yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi digon o arian o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus. Pe digwydd bod yr incwm ariannu yn fach iawn, mae'r Grŵp Llywio yn hyderus, ac mae wedi modelu senario o'r fath, y byddai gwaith atgyweirio sylfaenol ac ailaddurno'r safle fel y mae, wedi ei wneud a'i staffio'n bennaf gan wirfoddolwyr, yn caniatáu i'r dafarn ailagor. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynrychioli hyd a lled gweledigaeth ac uchelgais Menter Tafarn y Dyffryn. Dylid ei ystyried fel dim mwy na chynllun wrth gefn.

Mae'n werth nodi bod prynu'r dafarn yn golygu dod yn berchen ar fflat tair ystafell wely, sydd ar hyn o bryd yn cael ei rhentu ar gyfradd y farchnad o tua £400 y mis. Gellir ystyried sawl opsiwn ar gyfer y fflat, gan gynnwys adnewyddu'r cytundeb byr-dymor presennol, gosod y fflat i staff, neu adnewyddu'r fflat a'i gosod fel llety gwyliau, o bosib.

Mae'r model ariannol tair blynedd, ynghyd â rhagolygon llif arian i'w weld yn yr atodiadau. Dyma'r rhagolygon masnachu ariannol ar gyfer y tair blynedd lawn gyntaf (£):

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
Incwm (£)	93,017	108,057	112,229	117,596
Gwariant (£)	105,375	105,940	107,495	107,104
Elw / Colled heb y dibrisiant (£)	-12,358	2,118	4,764	10,493

7.2 Amseriad

Tybir bod Blwyddyn 1 yn dechrau ar 1 Mawrth 2023. Cyn y flwyddyn gyfan bydd cyfnod o agor yn raddol pan cedwir costau staff cyn ised â phosibl. Mae'n bosib y gallem wneud hynny trwy ohirio penodi Rheolwr nes bod patrymau masnachu wedi'u hen sefydlu. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn caniatáu rhywfaint o arbrofi gydag oriau agor a bwydlenni er mwyn gweld beth yw ymateb y defnyddwyr. Y bwriad yw masnachu fwy neu lai fel yr arfer trwy gydol gwanwyn a haf 2022, er mwyn cadw' dafarn ar agor a chynnal ewyllys da a datblygu'r ethos o berchenogaeth gymunedol. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gweithio gyda'r pensaer ar y cynllun 'ailldatblygu', gyda'r nod o ddechrau ar y gwaith adeiladu yn ystod hydref a gaeaf 2022/23; hyd yn oed wedyn, y bwriad yw y bydd y busnes yn parhau'n agored, er y bydd y cynnig a fydd ar gael wedi'i leihau.

7.3 Tybiaethau allweddol

Mae ffigurau trosiant bwyd a diod wedi eu cyfrifo ar sail modelu manwl, a nodir yr amrywiol elfennau. Yna, gwnaed cymariaethau ag (a) The British Beer and Pub Association 2019 Guide, gan gyfeirio at eu model 'Rural Pub with Character'; a (b) modelau busnes tafarndai cymunedol eraill mewn ardaloedd tebyg yng nghefn gwlad a ddarparwyd gan Sefydliad Plunkett. Darparwyd cyngor hefyd gan arbenigwyr drwy Ganolfan Cydweithredol Cymru. Yn olaf, cafwyd cyngor uniongyrchol mewn perthynas â ffiniau elw, prisiau, trosiant, oriau agor a chostau staffio gan dafarndai pentref sefydledig eraill yng Nghymru, yn ogystal ag o ffigurau masnachu hanesyddol y Vale ei hun. Mae ein hadolygiadau'n dangos bod ein tybiaethau'n rhesymol ac, os rhywbeth, yn geidwadol.

7.4 Staffio

Yn dilyn y cyfnod o 'agor fesul cam', penodir rheolwr llawn amser ar gyfradd o c£30,000 (heb gynnwys argostau) i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith bwyd a diod o ddydd i ddydd, ac archebion am ddigwyddiadau. Ystyrir talu bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Bydd y rheolwr yn gweithredu fel rheolwr llinell i'r holl staff cyflogedig (a fydd, gan fwyaf, yn staff achlysurol) a bydd ganddo rôl hefyd yn goruchwylio gwirfoddolwyr. Bydd ef/hi (neu 'nhw', oherwydd gallai fod yn gyfle i rannu swydd) yn darparu adroddiadau misol i'r Is-

bwyllgor Busnes a bydd yn adrodd, o ddydd i ddydd, i aelod penodol o'r Grŵp Llywio a fydd yn gweithredu fel rheolwr llinell. Bydd yr Is-bwyllgor Busnes yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn rhoi crynodebau a chyngor i'r Grŵp Llywio.

Mae'r model busnes yn darparu dadansoddiad manwl fesul awr o'r staff eraill y bydd eu hangen i gynnal y gwasanaethau sy'n cael eu disgrifio. At ddibenion y cynllun hwn, tybir bod yr oriau hyn i gyd yn cael eu darparu gan staff cyflogedig, rhai parhaol a rhai dros dro, er bod y cyfle i wirfoddoli yn cynnig arbedion o dan y penawdau hyn o bosibl.

Un o agweddau hirdymor a dymunol y cynllun yw'r bwriad i benodi Swyddog Datblygu gyda chyllid grant i oruchwylio'r gwaith o gyflawni amcan ehangach y Gymdeithas o sicrhau'r cyfranogiad, datblygu sgiliau a gwirfoddoli, i'r graddau mwyaf posibl. Bydd y Swyddog Datblygu hefyd yn canolbwyntio ar y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, ymgysylltu â'r gymuned, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd, creu cysylltiadau â rhanddeiliaid amrywiol, gweithgareddau cyfathrebu a marchnata a gwneud ceisiadau am grantiau i ariannu unrhyw waith datblygu pellach. Bydd rôl y Swyddog Datblygu yn sicrhau bod y cyfleuster yn cyrraedd ei lawn botensial a bod Menter Tafarn y Dyffryn yn cyflawni ei chenhadaeth gymdeithasol. Nid yw'r elfen hon wedi'i chostio'n rhan o'r Cynllun busnes ar y pwynt hwn, ac mae'n agwedd o'r prosiect a allai fod yn ddibynnol ar ddarpariaeth cyllid grant digonol.

7.5 Adloniant

Nid oes unrhyw wariant wedi'i glustnodi ar gyfer costau adloniant ar y pwynt yna, oherwydd gallai costau adloniant gael eu talu trwy werthiant tocynnau. Fodd bynnag, byddai ein nod craidd o ddod â phobl ynghyd yn cynnwys cynnal nosweithiau cerddoriaeth byw a digwyddiadau tebyg, ac mae pobl eisoes wedi sôn eu bod yn awyddus i weld hynny yn yr holiaduron.

Fel y nodir uchod, byddem yn awyddus i greu partneriaeth waith gyda Theatr Felinfach, lle byddai modd i'r Vale ddarparu lleoliad amgen/ychwanegol i gynnal digwyddiadau cerddoriaeth a chomedi (o bosibl yn rhan o ŵyl ar y cyd).

8. Marchnata a hyrwyddo

8.1 Cynllun marchnata

Bydd marchnata rhagweithiol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. Wrth i ni geisio marchnata ein cynnyrch a'n gwasanaeth, byddwn yn cael ein harwain gan egwyddorion marchnata sefydledig.

Rydym o'r farn bod gan y 'Vale' gymeriad cryf ac enw da eisoes y gellir eu marchnata fel brand clir i'r cynulleidfaoedd targed. Yn nhermau'r cynllun marchnata, y lle yw'r lleoliad lle dosbarthir y cynnyrch, sef yn yr achos hwn, y 'Vale'. Bydd addurniad mewnol a delwedd gyffredinol yr adeilad yn cael effaith ar ei hyrwyddo ac ar ein strategaeth brisio, a byddwn yn ceisio adeiladu ar yr ymdeimlad o le sy'n bodoli eisoes, gan wneud y Vale yn gyrchfan ynddo'i hun, yn lle y mae pobol eisiau mynd iddo i gael 'pryd da o fwyd' a 'noson mas dda'.

Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar hysbysebu ar y we i gyfleu gwybodaeth am gynnyrch y 'Vale'. Gallai hyn fod ar ffurf cyfres o ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r presenoldeb presennol y we yn gweithredu fel 'tudalennau glanio' ar gyfer ein marchnata ar-lein.

Gall deunyddiau marchnata print megis llyfrynau a thaflenni hefyd fod yn ddulliau marchnata effeithiol ar gyfer y 'Vale', yn bennaf fel rhan o strategaeth 'cyrchfan' ar gyfer ymwelwyr â'r ardal. Byddem yn awyddus i hyrwyddo cyfleodd megis cynigion bwyd canol wythnos.

Bydd datganiadau cyffredinol i'r wasg a straeon diddorol am y 'Vale' yn cynnal y proffil. Mae erthyglau yn y cyfryngau darlledu, y cyfryngau print ac ar-lein yn ffordd ddibynadwy o gyfathrebu â'r farchnad. Byddwn yn meithrin ac yn cynnal perthynas ag aelodau amrywiol o'r wasg; mae hon yn ffordd sylfaenol, ond hanfodol o gael sylw. Bydd datganiadau diddorol a difyr yn cynnal diddordeb y wasg yn y cynnig sydd ar gael.

Y rhyngwyd yw'r dull marchnata mwyaf cost effeithiol wrth geisio hyrwyddo cynnyrch i farchnad sydd gryn bellter i ffwrdd. Rydym wedi adeiladu gwefan (www.tafarn.cymru) ac mae'n hanfodol ein bod yn optimeiddio'r wefan i ymddangos yn defnyddio termau chwilio amrywiol, e.e. bwyd neu ddiod yn Ystrad Aeron a Felinfach.

Mae'n debyg mai'r cyfrwng mwyaf rhyngweithiol y gellir ei ddatblygu ar hyn o bryd fyddai safleoedd y 'Vale' ar y cyfryngau cymdeithasol - Facebook a Twitter yn bennaf, ond hefyd Instagram unwaith y byddwn yn dechrau gweithio ar yr adeilad ac unwaith y bydd y busnes yn weithredol. Mae'r llwyfannau hyn yn cynnig cyfle i frandiau siarad â'u cwsmeriaid yn ddyddiol, i ymgysylltu â nhw, i ateb eu hymholiadau. Maent, yn y bôn, yn ddulliau marchnata 'am ddim' pan gânt eu defnyddio'n iawn.

Mae'r bobl sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn yn cynnwys pawb sy'n gysylltiedig â'r 'Vale'. Mae gan Grŵp Llywio Menter Tafarn y Dyffryn gymysgedd dda o arbenigedd a phrofiad, ac a chaiff yr arbenigedd a'r profiad hwnnw ei ffocysu ar y prosiect penodol hwn ac ar gefnogi staff a gwirfoddolwyr i ddarparu profiad o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Does neb yn well am werthu cynnyrch na gwasanaeth na rhywun sydd wedi profi'r gwasanaeth hwnnw, ac mae profiadau a barn cyfoedion yn rhywbeth sy'n gynyddol gyffredin a phwerus yn y maes marchnata. Ein nod fyddai defnyddio'r profiadau hyn fel rhan o'r gwaith hyrwyddo ac annog pobl i bostio adolygiadau cadarnhaol ar amrywiol gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol ac ar TripAdvisor.

Rhaid i'r broses ganolbwyntio ar y cwsmer ar bob pwynt yn ystod y sianel werthu. Rhaid i'r wefan fod yn groesawgar, mae angen i'r staff fod yn groesawgar ac yn wybodus, ac mae angen i'n hymateb fel mudiad fod yn rhagweithiol ac yn gefnogol.

8.2 Marchnata'r Cynnig i brynu Cyfranddaliadau

Prif neges yr ymgyrch hon fydd y gallwn achub ein tafarn, a chreu tafarn i'r gymuned. Bydd buddsoddwyr yn cael eu targedu'n bennaf trwy ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg ar draws Cymru, ac ymhellach trwy'r rhwydwaith o dafarndai cymunedol.

Bydd y Cynnig i brynu Cyfranddaliadau yn cael ei hyrwyddo'n defnyddio nifer o dactegau, gan gynnwys llunio prosectws a fydd yn fersiwn byrrach a mwy bachog o'r Cynnig Cyfranddaliadau. Ochr yn ochr â hyn defnyddir nifer o gymhorthion marchnata gweledol megis cynnwys ffotograffig a chynnwys fideo i'w defnyddio ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.

Caiff nifer o fideos eu creu a fydd yn cynnwys fersiwn llawn (hyd at 3 munud), a nifer o fersiynau byrrach (hyd at 30 eiliad), gyda negeseuon a phroffiliau demograffig amrywiol.

Rydym wedi bod yn casglu data'r sawl sydd â diddordeb yn y fenter ers sefydlu gwefan y Gymdeithas Budd Cymunedol gan fod modd tanysgrifio i'r safle, ac felly byddwn hefyd yn gweithredu ymgyrchoedd e-farchnata ar gyfer y Cynnig Cyfranddaliadau. Rydym hefyd yn bwriadu recriwtio 'llysgenhadon' y 'Vale' mewn gwahanol rannau o Gymru, a dosbarthu taflenni i'r sawl nad oes ganddynt fynediad at lwyfannau digidol, neu nad ydynt yn eu defnyddio.

Mae gennym aelodau o'r gymuned sy'n gweithio yn y cyfryngau Cymraeg ac mae nifer o gysylltiadau eraill yn y wasg wedi eu meithrin dros y misoedd diwethaf. Byddwn yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i sicrhau llif cyson o sylw yn y wasg wrth i ni weithredu'r ymgyrch.

Er ein bod yn deall y gall marchnata print fod yn gostus gan sicrhau impact lled-fach o gymharu â'r buddsoddiad, mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd cyfran dda o'r gymdeithas nad ydynt yn weithgar ar gyfryngau cymdeithasol, felly bydd gennym elfen o hysbysebu lleol, wrth i'r fersiwn fach o'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau gael ei argraffu a'i bostio i bob cartref yn y cod post lleol.

9. Llywodraethu

9.1 Grŵp Llywio

Mae Menter Tafarn y Dyffryn wedi'i chofrestru o dan y gyfraith fel Cymdeithas Budd Cymunedol gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn cynnal busnes er budd y gymuned, ac mae'n ymrwymedig i wneud y pethau canlynol:

- masnachu er budd y gymuned, ac nid er budd preifat unrhyw un
- cadw elw a defnyddio elw i hyrwyddo Diben y Gymdeithas

Mae Menter Tafarn y Dyffryn yn ddarostyngedig i Reolau'r sefydliad a bydd y Grŵp Llywio yn rheoli materion y Gymdeithas.

Ffurfiwyd Grŵp Llywio cychwynnol yn dilyn trafodaethau anffurfiol rhwng grŵp bach o bobol sy'n weithgar yn y gymuned, a benderfynodd ddod ynghyd i ymgymryd â'r prosiect. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys 13 o bobl, ac mae'r aelodau fel a ganlyn:

Iwan Thomas (Ysgrifennydd) – Mae Iwan yn fachan ei filltir sgwâr, wedi ei fagu yn Nyffryn Aeron ac wedi dychwelyd yno ar ôl cyfnod yn astudio pensaernïaeth yn Llundain. Mae ei ddiddordebau'n cynnwys y celfyddydau a chwaraeon, ac ymysg pethau eraill mae e'n Gynghorydd Cymuned lleol, yn Gadeirydd Cwmni Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw ac yn arweinydd brwd gyda CFFI Felinfach. Bu rhieni Iwan yn rhedeg tafarn a gwesty llwyddiannus yn Tyglyn Aeron am nifer o flynyddoedd, sy'n golygu bod ganddo ddigonedd o brofiad ymarferol!

Keith Henson (Trysorydd) – Mae gan Keith brofiad o redeg mudiadau a chlybiau diwylliannol a chwaraeon dros y blynyddoedd, ac mae'n Drysorydd Adran Iau Clwb Rygbi Aberaeron. Yn gyn-Rheolwr Banc a chyn-Bennaeth Gwasanaethau Masnachol, mae'n gweithio yn y sector tai ar hyn o bryd, ac yn Gadeirydd Cynnal y Cardi. Mae Keith yn ymfalchïo yn y cyfle i fod yn rhan o brosiect pwysig all adfywio'r ardal, ac yn edrych mlaen at weld yr hwyl yn parhau yn y Vale!

Janice Thomas – Mae Janice yn byw yn Ciliau gyda'i gŵr a'i tri mab. Mae bellach yn Swyddog Cyfathrebu gyda Chymdeithas Tai Barcud, a chyn hynny bu'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanercharon am 10 mlynedd. Fel merch o Gribyn, cafodd ei magu ar aelwyd siop a swyddfa bost y teulu, a oedd yn galon i fywyd y pentref. Mae'n gwirfoddoli i Tir Dewi ac yn arweinydd gyda CFFI Felinfach. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda nifer o dudalennau Facebook cymunedol yn Nyffryn Aeron.

Dwynwen Llywelyn – Mae Dwynwen yn dod o Dregaron yn wreiddiol, ond yn byw yn Nyffryn Aeron ers nifer o flynyddoedd. Mae'n gynhyrchydd a chyfarwyddwr profiadol, ac yn Bennaeth Theatr Felinfach, gan arwain ar nifer o brosiectau gyda'r gymuned.

Owen Llywelyn – Magwyd Owen yn Felinfach ac mae'n byw yn Nyffryn Aeron. Ar ôl cyfnod fel athro a Chynghorydd Sir, mae bellach yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n chwarae gitâr flaen mewn band lleol.

Eilir Evans – Bachgen o Felinfach yw Eilir, ac mae'n gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae nid yn unig yn Gadeirydd Cae Chwarae a Chlwb Pêl-droed Felinfach, ond mae hefyd dal yn chwarae i'r clwb... mae'n disgwyl cael gwd pensiwn! Mae'n Arweinydd gyda CFFI Felinfach ac yn Drysorydd 4 eglwys y plwyf yn Nyffryn Aeron. Mae'n hapus i helpu pawb a cheisio cadw pawb i wenu!

Carys Mai – Eleni, symudodd Carys i fyw yn ardal Ciliau, ac mae ei chysylltiadau â Dyffryn Aeron yn gryf ers yn ifanc. Pan nad yw'n Rheolwr Swyddfa i'r Aelod Seneddol Ben Lake, mae'n brysur yn garddio a chwynnu. Mae'n mwynhau perfformio gyda chôr Merched Soar, ac mae'n un o Gyfarwyddwyr Cwmni Cydweithredol Troed-y-rhiw.

Lowri Jones – Un o ardal Banc Sion Cwilt yw Lowri yn wreiddiol ond mae wedi ymgartrefu yng Nghiliau Aeron erbyn hyn. Yn ei gwaith bob dydd mae'n cynorthwyo cymunedau gyda phrosiect gwefannau straeon lleol Bro360. Yn ei hamser sbâr mae'n joio gwyllo rygbi lleol a chanu gyda'r côr, ac mae hefyd yn Drysorydd Cwmni Cydweithredol Troed-y-rhiw. Mae wrth ei bodd yn ymwneud ag unrhyw beth sy'n rhoi egni a grym i gymunedau.

Gary Davies – Mae Gary wedi'i eni a'i fagu yn Felinfach, ac mae'n gweithio i Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion Cyf ers 34 mlynedd. Mae wedi cymryd sawl rôl gyda'r CCF, o weithio yn y siop i reolwr rhanbarthol, a bellach mae'n Rheolwr Cydymffurfio, sydd â chyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch ac ati. Mae Gary yn mwynhau ymwneud â gwahanol fudiadau, gan gynnwys clybiau ffermwyr ifanc, Theatr Felinfach a'r panto, a thimau iau Clwb Pêl-droed Felinfach. Mae'n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Ciliau Parc.

Euros Lewis – Ers ymadael o'i waith yn swyddog Addysg Gymunedol â Chyngor Sir Ceredigion mae Euros wedi ceisio cynorthwyo prosiectau sy'n datblygu ymatebion cadarnhaol i'r heriau a wynebwr gan gynefinoedd cynhaliol y Gymraeg (e.e. Gweithgor Dyffryn Aeron, Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw a Phrosiect Fory Radio Beca).

Hywel Ifans – Mae Hywel yn Gyfarwyddwr BCC IT, cwmni TG yng Nghastellnewydd Emlyn sy'n cyflogi oddeutu 35 o staff ac yn gwasanaethu cwsmeriaid ar draws y DU a thu hwnt. Yn gyn-enillydd gwobr arweinydd technegol y flwyddyn yn Nghymru, mae gan Hywel dros chwarter canrif o brofiad busnes ac mae'n angerddol dros ddatblygu a chynnal economi gref yn nghefn gwlad. Mae'n fodel rôl busnes gyda Syniadau Mawr Cymru sy'n ymdrechu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid.

Rob Phillips – Mae Rob yn byw ar fferm Blaenfallen ger Talsarn, yn wŷr i Delyth ac yn dad i Tryfan. Cyn symud i Blaenfallen, roedd e'n byw yn Llanbed ac yn Gynghorydd Tref yno. Mae'n archifydd ac yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae'n un o drefnwyr Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbed ac un o'r pwyllgor a ailsefydlodd Gŵyl Fwyd Llanbed 2019.

Dyfed Evans – Er bod Dyfed bellach yn byw yn ardal Llanbed, cafodd ei fagu yn llythrennol y drws nesa i'r Vale. Yn fachan rhifau, mae'n gyfrifydd cymwys ACMA, ac mae'n rhedeg cwmni cydweithredol yn Abertawe.

9.2 Cynnwys yr aelodaeth, a grwpiau thematig

Mae'r Grŵp Llywio yn awyddus i gynnal ymdeimlad o gydberchnogaeth a chydgyfrifoldeb, a gan hynny bydd bob amser yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â'r aelodaeth (a'r gymuned yn ehangach). Byddwn yn gwneud hynny trwy wneud defnydd dychmygus o gyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r wasg yn lleol (yn enwedig ein papur bro Llais Aeron), trwy eitemau newyddion ar y wefan a thrwy gyhoeddi cylchlythyr rheolaidd.

Cefnogir y Grŵp Llywio gan hyd at chwe is-bwyllgor sy'n gyfrifol am wahanol feysydd gweithgarwch a gwahanol arbenigeddau. Mae'r grwpiau hyn yn fodd o ysgafnhau'r baich, ond hefyd o gynnal yr ymgysylltu ac ehangu'r aelodaeth graidd weithredol i sicrhau cynnydd a dilyniant mewn modd naturiol. Disgwylir i'r is-bwyllgorau hynny gynnwys:

- Gweithrediadau Busnes
- Marchnata, brandio a chyfathrebu
- Ailddatblygu a chynnal a chadw'r adeilad
- Bwyd a diod
- Yr ardal allanol a'r ardd
- Gweithgarwch cymunedol ac adloniant

Bydd y grwpiau yn cynorthwyo'r Grŵp Llywio i gyflawni ei swyddogaethau, yn sicrhau bod Menter Tafarn y Dyffryn yn cael ei ddatblygu a'i redeg yn effeithiol ac yn cyflawni tasgau penodol ar ei ran.

10. Rheoli risg

10.1 Dadansoddiad SWOT

Mae'r Dadansoddiad SWOT hwn yn nodi'r Cryfderau, y Gwendidau, y Cyfleoedd, a'r Bygythiadau sy'n berthnasol i'r prosiect. Gellir gweld cofrestr risg manylach arall yn Atodiad 4.

Cryfderau

1. Ewyllys dda hanesyddol – mae gan y 'Vale' sylfaen cwsmeriaid sefydlog ac roedd yn dafarn boblogaidd ymysg trigolion y pentrefi cyfagos
2. Diffyg cystadleuaeth gan dafarndai, bwytai a gwestai o fewn radiws o 5 milltir
3. Gofod awyr agored – y gallu i gynllunio a defnyddio ardaloedd allanol i uchafu defnydd ac incwm yn oes estynedig Covid-19
4. Dangoswyd llawer o gefnogaeth ac ewyllys da yn ystod gweithgarwch ymgynghori'r holiadur a'r cyfarfodydd cyhoeddus
5. Mae cyfleusterau cymunedol eraill da yn y pentref , sy'n golygu bod y dafarn yn lleoliad poblogaidd ar gyfer diod 'ar ôl cyfarfod'. Mae traddodiad da yn y pentref o ymwneud â gweithgareddau
6. Adeilad deniadol â gofodau sy'n llawn cymeriad
7. Lleoliad canolog ardderchog, o fewn pellter cerdded hawdd i bob pentrefwr ac sy'n ganolog i gymuned Dyffryn Aeron
8. Mae bod yn fenter gymunedol yn golygu y bydd gan gyfranddalwyr ragor o gymhelliant i ddefnyddio a chefnogi'r cyfleuster
9. Fel Cymdeithas Budd Cymunedol bydd y fenter yn gallu gwneud ceisiadau am arian grant
10. Y Gymdeithas fydd yn berchen ar y rhydd-ddaliad ac ni fydd yn gysylltiedig ag unrhyw fragdai; felly byddwn yn gallu negodi'r bargeinion gorau o ran y cyflenwad o fwyd a diod

Gwendidau

1. Does dim buddsoddi mawr wedi digwydd dros gyfnod hir, nid yw'r adeilad mewn cyflwr gwych
2. Mae'r sylfaen cwsmeriaid wedi gostwng rhywfaint ers Covid, yn benodol yr elfen fwyd wrth i ddeiliad y brydles symud ei ffocws i fusnes arall
3. Mae costau adnewyddu yn uchel ac yn anodd eu rhagweld, yn rhannol oherwydd oed yr adeilad ac yn rhannol oherwydd ffactorau allanol megis Covid a Brexit.

Cyfleoedd

1. Ail-feithrin ac adeiladu ar enw da'r Vale
2. Bodloni'r galw am fwyd da yn yr ardal
3. Darparu cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau preifat, a allai hefyd gael eu defnyddio fel cyfleusterau cymunedol ychwanegol yn lleol
4. Datblygu sylfaen cwsmeriaid newydd gan gynnwys pobl sy'n gweithio gartref, busnesau cyfagos a phobl sy'n chwilio am gwrw lleol a bwyd o ansawdd da o ffynonellau lleol
5. Denu cwsmeriaid o'r tu hwnt i'r pentref, ac o dro i dro, o bosib, mynd â'r dafarn mas i bentrefi eraill yn yr ardal
6. Cryfhau'r sylfaen cwsmeriaid a theyrngarwch drwy adeiladu ar agwedd gymunedol y dafarn
7. Cynnwys cwsmeriaid a'r gymuned ehangach drwy drefnu digwyddiadau, sgiliau ymarferol, gwirfoddoli ac ati
8. Galluogi'r gymuned leol a chyfranddalwyr ehangach i deimlo'n rhan o rywbeth hanesyddol a buddiol i'r pentref
9. Gwella'r safle a'r gwasanaethau i ysgogi rhagor o ddefnydd gan y gymuned
10. Gweithio i wella pa mor atyniadol yw'r dafarn, drwy gymorth ymarferol ac adborth adeiladol
11. Penodi rheolwr a staff profiadol i wneud y dafarn yn llwyddiannus, i ddarparu gwasanaeth da i gwsmeriaid ac i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n dda gan y gymuned
12. Manteisio ar y cronfeydd cyllid grant newydd sydd ar gael i gefnogi adferiad cymunedau yn dilyn Covid-19 ac i ddatblygu asedau sy'n eiddo i'r gymuned.

Bygythiadau

1. Diffyg diddordeb yn y cynnig cyfranddaliadau cymunedol
2. Methu ad-dalu benthycwyr
3. Diffyg cyllid digonol ar ôl prynu'r dafarn i gwblhau'r gwaith adnewyddu a datblygu
4. Cyfyngiadau Covid-19 yn parhau am gyfnod hwy, gan effeithio ar ein gallu i fasnachu yn ôl y disgwyl
5. Costau trwsio annisgwyl
6. Gostyngiad mewn cefnogaeth gymunedol, yn gyffredinol ac o ran gwirfoddolwyr
7. Newidiadau mewn ffactorau allanol dros y tair blynedd nesaf – megis dirywiad economaidd, newidiadau ym mhollisiau cyllidwyr grantiau, cystadleuaeth annisgwyl, ac ati
8. Methiant i benodi a dal gafael ar bersonél allweddol â chymwysterau addas, yn enwedig y rheolwr a/neu'r cogydd

9. Methu â chyflawni a chynnal cydbwysedd cywir rhwng ansawdd / gwerth / elw.

10.2 Ymateb i'r risgiau

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar y cyfleoedd a nodwyd yn ein dadansoddiad SWOT. Byddwn yn ymateb i'r gwendidau a'r bygythiadau drwy gyfrwng y mesurau canlynol:

10.2.1 Denu busnes

Unwaith y bydd y dafarn yn eiddo i'r gymuned, bydd yr ymrwymiad i ddefnyddio'r dafarn ac i annog teulu a ffrindiau i'w defnyddio yn sylweddol. Mae hyn wedi profi'n wir mewn llawer o dafarndai sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd ffurfiol partneriaethau a chefnogi nifer o glybiau a chymdeithasau lleol yn ennyn ymdeimlad o cyd-deyrngarwch.

Bydd darpariaeth gyson o gwrw, gwin a bwyd da, lleol, ac iddo bris cystadleuol, wedi'i baratoi'n ffres yn defnyddio cynhwysion lleol, ynghyd ag oriau agor dibynadwy, yn rhoi sail dda ar gyfer sefydlu enw da'r dafarn, a ddylai wedyn ddenu llif cyson o gwsmeriaid wrth i'r neges fynd ar led, ar lafar, trwy adolygiadau da ar TripAdvisor, mewn adolygiadau o fwytai yn y papurau newydd lleol, ac ati. Bydd cyflwyno digwyddiadau byw rheolaidd, chwaraeon tafarn, clybiau amser cinio, caffi, a gweithgareddau cymunedol o bob math hefyd yn denu cwsmeriaid.

10.2.2 Diffyg arian grant ar gyfer adnewyddu a chostau annisgwyl

Mae arolwg cyflwr wedi'i gynnal ac mae ein cynnig i brynu'r dafarn yn adlewyrchu'r cyflwr a'r prisiad presennol a gafwyd. Rydym yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o waith adnewyddu ac atgyweirio er mwyn darparu adeilad o safon. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ein gweledigaeth lawn, a diwallu anghenion y gymuned a chynyddu hyfywedd y prosiect, rydym yn awyddus i ail-fodelu a datblygu'r adeilad. Rydym yn bwriadu ariannu'r gwaith hwn drwy gymysgedd o gyfranddaliadau cymunedol, codi arian a chyllid grant. Yn seiliedig ar ymholiadau cychwynnol gyda chyllidwyr posibl, rydym yn hyderus bod y prosiect yn bodloni meini prawf rhai cronfeydd grant cyfalaf.

Rydym yn nodi risg fach na fydd ein ceisiadau am grant efallai'n llwyddiannus ac rydym yn barod i gwtogi ein cynlluniau ac atgyweirio'r adeilad gyda'r arian sydd ar gael, pe bai angen i ni wneud hynny. Mae ein Grŵp Llywio yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad o wneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau a bydd hyn yn fantais. Gellir lliniaru effaith ariannol gorfod gwneud atgyweiriadau nas rhagwelwyd, i ryw raddau, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr o'r gymuned a thrwy gynnal gweithgareddau codi arian. Mae llawer wedi nodi (yn ystod gweithgarwch ymgynghori) y byddent yn fodlon rhoi eu hamser a'u sgiliau mewn da i helpu i atgyweirio'r adeilad.

10.2.3 Benthyciadau heb eu talu a chyfranddalwyr yn tynnu'n ôl

Byddwn yn prynu'r adeilad gyda'r arian a godir o werthu cyfranddaliadau cymunedol.

Mae rheolau'r Gymdeithas yn nodi na all aelodau dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad y busnes, er mwyn caniatáu amser iddo sefydlu ei hun. Ar ôl

hynny, bydd yn ofynnol i aelodau roi rhybudd yn unol â'r Rheolau os ydynt yn dymuno tynnu eu cyfranddaliadau'n ôl, a chymeradwyir hynny'n amodol ar sicrhau bod yr arian ar gael ac o gael cadarnhad y Grŵp Llywio.

Bydd cronfeydd arian parod wrth gefn yn cael eu cronni lle bo'n bosibl er mwyn galluogi pobl i dynnu cyfranddaliadau yn ôl, yn amodol ar ofynion y busnes. Yn ddelfrydol, bydd cyfranddalwyr presennol neu gyfranddalwyr newydd yn barod i fuddsoddi i wneud yn iawn am gyfranddaliadau sy'n cael eu tynnu'n ôl. Os na ellir gwerthu cyfranddaliadau yn eu lle, yna byddai'r gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio. Er bod rheolau'r Gymdeithas yn mynnu bod pob aelod yn ymrwymo i'w fuddsoddiad am o leiaf dair blynedd, mae rhai amgylchiadau lle mae'r Grŵp Llywio wedi'i awdurdodi i ganiatáu tynnu'n ôl yn gynnar (e.e. marwolaeth a methdaliad).

Yn ymarferol, nid ydym yn rhagweld y bydd y Gymdeithas mewn sefyllfa i ariannu unrhyw dynnu'n ôl cyn Blwyddyn 5. Pan fydd modd ystyried ailagor cyfranddaliadau i'w prynu, bydd y Grŵp Llywio yn nodi meini prawf a therfyn blynyddol priodol. Gall y Grŵp Llywio atal pobl rhag tynnu cyfranddaliadau'n ôl yn dibynnu ar fuddiannau hirdymor y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd digonol wrth gefn, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

10.2.4 Nid yw'r busnes yn hyfyw

Os nad yw'r busnes, er gwaethaf bod â chynllun busnes cadarn, marchnata egniol a pharhaus, a chefnogaeth yr aelodau a chwsmeriaid eraill, yn datblygu fel y rhagwelwyd, yna byddai'n rhaid i'r Grŵp Llywio ystyried penodi tenant i redeg y dafarn NEU gael ei orfodi i gau'r dafarn, gwerthu'r asedau ac ad-dalu'r buddsoddwyr gwreiddiol, gydag unrhyw asedau gweddilliol i'w defnyddio er budd y gymuned. Mae'n amlwg nad dyma'r canlyniad y byddem yn dymuno ei weld, ac nid yw'n debygol yn ein barn ni, ond dylai'r camau posibl hyn roi rhywfaint o sicrwydd i fuddsoddwyr y gallant, pe bai'r fenter yn aflwyddiannus, adennill rhywfaint neu'r cyfan o'u buddsoddiad.

10.2.5 Cyfyngiadau Covid-19

Rhagwelwn y bydd pryniant y dafarn wedi cwblhau erbyn yn gynnar yn 2022. Ar hyn o bryd mae'n anodd rhagweld beth fydd effaith y pandemig ar weithrediad y busnes. Ein blaenoriaeth gychwynnol fydd ailagor, a chadw at unrhyw reoliadau Covid-19 a allai fod mewn grym ar y pryd. Pe baem yn llwyddiannus yn ein ceisiadau grant ar gyfer y gwaith uwchraddio a datblygu, byddai hyn yn arwain at gyfnod o fod ar agor yn rhannol tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo.

Gan ragweld y bydd ein ceisiadau am grant yn llwyddiannus, rydym yn rhagweld y byddwn yn ailagor yr adeilad ar ei newydd wedd yng ngwanwyn 2023. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n barhaus ac yn addasu wrth i ni fynd ymlaen i ymateb i sefyllfa'r pandemig. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ba grantiau cymorth busnes y gallem fod yn gymwys i'w cael i'n helpu yn ystod y pandemig.

10.3 Deddf Diogelu Data 2018

Mae'r Gymdeithas yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 a bydd yn defnyddio ac yn prosesu data personol at ddibenion Menter Tafarn y Vale Cyf yn unig. Byddwn yn gwneud y pethau canlynol:

- ei ddefnyddio'n deg, yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw
- cadw gwybodaeth bersonol sydd gennym yn ddiogel ac yn gyfoes
- ei ddefnyddio at y dibenion penodol y'i casglwyd ar ei gyfer yn unig
- ei gadw am ddim mwy nag sy'n angenrheidiol

11. Casgliadau

Mae gan gymuned Ystrad Aeron/Felinfach ac ardal ehangach Dyffryn Aeron randdeiliaid sy'n amlwg yn gefnogol iawn i'r cynnig i brynu, cadw a datblygu'r 'Vale' fel menter gymunedol. Mae llawer o dystiolaeth i gefnogi'r angen am fan cwrdd cymdeithasol yn yr ardal i gefnogi pobl gyda'u hiechyd a'u lles ac i helpu i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac unigrwydd. Bydd y prosiect hwn hefyd yn adfywio'r ardal, gan greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli a bydd yn darparu cyfleusterau hanfodol i gymuned wledig.

Mae'r dyhead y bydd y 'Vale' yn hunangyllidol yn realistig, ar yr amod bod sylfaen cwsmeriaid sefydlog yn cael ei adeiladu, a bod digon o fuddsoddiad ar y dechrau i sicrhau adeilad o ansawdd uchel sy'n amgylcheddol effeithlon. Bydd sicrhau lefelau staffio priodol ac, yn y pen draw, creu swydd Swyddog Datblygu, yn hanfodol i hyrwyddo a marchnata y 'Vale' yn effeithiol, i barhau i greu cysylltiadau â rhanddeiliaid ac i sicrhau bod yr ased yn parhau'n driw i'w genhadaeth a'i gyfrifoldebau cymdeithasol.

Rydym yn hyderus - cyhyd â bod y gymuned, y cyfranddalwyr a'r rhanddeiliaid yn parhau i gefnogi, a chyhyd ag y gall y prosiect ddarparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i safon sy'n bodloni disgwyliadau'r gymuned - y bydd y 'Vale' yn ased busnes ac yn ased llewyrchus i'r gymuned.

12. Rhestr o atodiadau

Atodiad 1: Ffynonellau ariannu posibl

Atodiad 2: Enghreifftiau o lythyrau cefnogaeth

Atodiad 3: Model ariannol 5 mlynedd a rhagolwg llif arian parod

Atodiad 4: Cofrestr risgiau

12.1 Atodiad 1 - Ffynonellau ariannu posibl

Cyfranddaliadau cymunedol

Mae perchnogaeth drwy gyfrwng Cyfranddaliadau cymunedol yn rhan sylfaenol o'r fenter gyfan gan mai dyma'r modd y bydd y gymuned yn ymwneud ac yn perchnogi'r dafarn. Yn ogystal, dyma sy'n darparu cyllid hanfodol i'r Prosiect ac mae'r rhan fwyaf o roddwyr grant yn gweld hynny fel arwydd angenrheidiol bod y gymuned yn ymrwymedig i'r prosiect.

Cymorth wrth ymgeisio am gyllid grant

Bydd Cyngor Sir Ceredigion, trwy eu cynllun Cynnal y Cardi, yn gallu cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynigion am gyllid grant. Mae Menter Tafarn y Dyffryn eisoes wedi sicrhau cyllid o dros £6,000 gan Cynnal y Cardi i gefnogi'r gwaith hwn wrth symud ymlaen, ynghyd â chymorth i gynorthwyo'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Cynnig i brynu cyfranddaliadau.

Isod ceir rhai enghreifftiau o ffynonellau ariannu posibl ar gyfer y gwaith o adnewyddu a datblygu'r adeiladau a ffynonellau cyllid refeniw posibl ar gyfer staffio:

• Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Pobl a Lleoedd

Mae'n cynnig cyllid o rhwng £100,001 a £500,000 i brosiectau lle mae pobl a chymunedau'n cydweithio ac yn defnyddio eu cryfderau i gael effaith gadarnhaol ar y pethau sydd bwysicaf iddynt. Gall 'Pobl a Lleoedd' ariannu costau cyfalaf a refeniw hyd at £500,000, megis offer, costau staff ac adnewyddu. Gall ariannu prosiectau am hyd at bum mlynedd.

• Llywodraeth Cymru – Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Cynllun grant cyfalaf yw hwn a weithredir gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned ac sy'n cael eu defnyddio'n gyson gan bobl yn y gymuned.

• Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lansio Cronfa Perchnogaeth Gymunedol newydd gwerth £150 miliwn i sicrhau y gall cymunedau ledled Cymru, yr Alban, Lloegr a gogledd Iwerddon barhau i gefnogi ac elwa ar y cyfleusterau, yr asedau cymunedol a'r amwynderau lleol sydd bwysicaf iddynt. Bydd grwpiau cymunedol yn gallu gwneud cais am hyd at £250,000 o arian cyfatebol i'w helpu i brynu neu gymryd drosodd asedau cymunedol lleol sydd mewn

perygl o gael eu colli, i'w rhedeg fel busnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd y rownd nesaf o geisiadau ar gyfer y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn agor ym mis Rhagfyr 2021, ac mae menter Tafarn y Dyffryn yn gweithio tuag at gyflwyno cais yn y rownd hwnnw.

- **Cronfa Economi Sylfaenol Cymru**

Mae gwasanaethau a chynhyrchion yr economi sylfaenol yn darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n ein cadw'n ddiogel, yn gadarn ac yn wâr. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth ac adwerthwyr y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n werth £4.5m a fydd yn cefnogi cyfres o brosiectau arbrofol a fydd yn eu galluogi, ar y cyd â phartneriaid, i brofi'r ffordd orau o gefnogi'r economi sylfaenol a gweld pa ymyriadau gan y Llywodraeth sy'n gweithio orau.

- **Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

Cyllid ar gyfer ystod eang o brosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y Deyrnas Unedig. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac am ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau o hyd at £5m ar gael ar gyfer prosiectau cymwys.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Cronfa Datblygu Asedau Cymunedol**

Cefnogi busnesau cymdeithasol i ddwyn asedau i berchnogaeth y gymuned drwy wneud un o'r pethau canlynol:

- prynu'r ased
- prynu ac adnewyddu'r ased
- adnewyddu ased presennol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn
- darparu cyfarpar mewn ased

Gall y math o ased amrywio o glybiau cymdeithasol/chwaraeon, neuaddau cymunedol, canolfannau cymunedol, tafarndai cymunedol ac ati. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos sut y bydd y gweithgaredd a ariennir yn creu newid cadarnhaol o ran yr effaith gymdeithasol yn ogystal â newid cadarnhaol mewn cynhyrchu incwm. Bydd sefydliadau'n gallu gwneud cais am hyd at £150,000. Mae angen arian cyfatebol o 40% o leiaf. Mae 40% ohono yn grant a 60% yn ad-daladwy. Bydd faint y byddwch yn ei ad-dalu yn dibynnu ar faint y mae incwm y sefydliad yn cynyddu.

- **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Cronfa Twf Busnesau Cymdeithasol**

Cefnogi busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn ariannol i'w galluogi i dyfu a chreu cyfleoedd gwaith. Ariennir y gronfa hon yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru a chaiff ei hychwanegu at gyfres o fuddsoddiadau a weinyddir gan Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru.

Gall y gronfa ddarparu buddsoddiad o hyd at £150,000. Mae angen arian cyfatebol o 40% o leiaf. Mae'r cymorth a ddarperir yn gymysgedd o grant a chymorth ad-daladwy; y mwyaf y byddwch yn gorgyflawni wrth greu swyddi y lleiaf y mae angen ei ad-dalu.

Cyllid mewn da

Gellir defnyddio cyfraniadau mewn da fel cyfraniad o fewn ceisiadau'r gronfa grant. Cyfraniad anariannol yw cyfraniad mewn da. Mae nwyddau neu wasanaethau a roddir am ddim neu am lai na'r pris arferol yn golygu y ceir cyfraniad mewn da. Yn yr un modd, pan fydd person neu endid yn talu am wasanaethau ar ran y pwyllgor, mae'r taliad yn gyfraniad mewn da.

12.2 Atodiad 2 – Enghreifftiau o lythyrau cefnogaeth (dienw lle y bo'n berthnasol)

Ar tafarn.cymru

12.3 Atodiad 3 – Model ariannol 5 mlynedd a rhagolwg llif arian parod

Ar tafarn.cymru

12.4 Atodiad 4 – Cofrestr risgiau

Ar tafarn.cymru